


oldbell³

Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi



Sut mae mesur cynnydd cenedl?

Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud tuag at gyrraedd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ionawr 2016

www.oldbell3.co.uk

Sut mae mesur cynnydd cenedl?

Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud tuag at gyrraedd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nia Bryer, Old Bell 3 Ltd



Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 825810

E-bost: FGActWales@wales.gsi.gov.uk

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymatebion i Gwestiynau Cyffredinol.....	6
3. Ymatebion i Gwestiynau Penodol.....	30

Rhestr o dablau

Tabl 1.1: Categoriadau'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
Tabl 2.1: Barn ynghylch p'un a wnaiff y dangosyddion arfaethedig asesu'n llawn p'un a wneir cynnydd.....	6
Tabl 2.2: Prif ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 4	10
Tabl 2.3 Dangosyddion newydd, ychwanegol arfaethedig	24
Tabl 3.1: Ymateb i Gwestiwn 6 (Dangosydd 3 Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw).....	30
Tabl 3.2: Ymateb i Gwestiwn 7 (Dangosydd 3 Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw).....	32
Tabl 3.3: Ymateb i Gwestiwn 8 (Dangosydd 23 Ansawdd Tai)	33
Tabl 3.4: Ymateb i Gwestiwn 9 (Dangosydd 24 Lefelau digartrefedd)	35
Tabl 3.5: Gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a nodwyd gan yr ymatebwyr.....	38
Tabl 3.6: Ymateb i Gwestiwn 11 (Dangosydd 26 Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol)	40
Tabl 3.7: Ymateb i Gwestiwn 12 (Dangosydd 31 Allyriadau nwyon tŷ gwydr)	42
Tabl 3.8: Ymateb i Gwestiwn 13 (Dangosydd 32 Ecosystemau iach)	44
Tabl 3.9: Ymateb i Gwestiwn 14 (Dangosydd 33 Amgylchedd naturiol bioamrywiol)	46
Tabl 3.10: Ymateb i Gwestiwn 15 (Dangosydd 34 Ansawdd y Dŵr)	47

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Saith Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	3
---	---

1. Cyflwyniad


Cefndir

- 1.1 Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol, sef 'Sut mae mesur cynnydd cenedl? Cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur a yw Cymru'n cyrraedd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' ar 19 Hydref 2015. Gorffennodd yr ymgynghoriad ar 11 Ionawr 2016.
- 1.2 Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru y bwriedir iddynt fesur cynnydd wrth gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

- 1.3 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar 29 Ebrill 2015 gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bwriedir i'r Ddeddf atgyfnerthu trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru, gan sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn arbennig, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant i Gymru, a nodir yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Saith Nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.4 Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth a wneir i lesiant Cymru. Bwriedir i'r dangosyddion hyn gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru fel sail i'w gwaith adrodd blynyddol (drwy'r Adroddiad Llesiant Blynyddol), i roi'r diweddaraf ar y cynnydd a wneir yng Nghymru i gyflawni'r saith nod llesiant.
- 1.5 Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori ffurfiol gynnig a oedd yn cynnwys 40 o ddangosyddion cenedlaethol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer pob dangosydd cenedlaethol nododd Llywodraeth Cymru'r hyn a fyddai'n cael ei fesur, sut y byddai'n cael ei fesur, y ffynhonnell ddata y cynigiwyd ei defnyddio a'r rhesymeg dros ddewis y dangosydd arfaethedig.

Y Broses Ymgynghori

- 1.6 Roedd y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a chyfres o ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015.
- 1.7 Fel rhan o'r ymgynghoriad ysgrifenedig, gwahoddodd Llywodraeth Cymru farn ar y 40 o ddangosyddion cenedlaethol arfaethedig drwy 18 o gwestiynau. Roedd pump o'r cwestiynau hyn yn gyffredinol eu natur, roedd 12 yn ymwneud â dangosyddion penodol ac roedd yr un arall yn benagored er mwyn galluogi ymatebwyr i wneud unrhyw sylwadau eraill. Hefyd, gallai'r ymatebwyr awgrymu dangosyddion newydd drwy gwblhau templed a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori.
- 1.8 Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gan dîm annibynnol o ymchwilwyr cymdeithasol yn Old Bell 3 Ltd., yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad.
- 1.9 Cafodd cyfanswm o 171 o ymatebion eu dadansoddi. Cyflwynwyd 145 o'r rhain yn electronig drwy e-bost (defnyddiodd 85 o'r rhain y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad) a chyflwynwyd 25 drwy Ffurflen Ar-lein Llywodraeth Cymru. O'r 171 o ymatebion, nododd saith nad oeddent am gael eu henwi mewn unrhyw ddogfennau cyhoeddus a gai eu cynhyrchu.

- 1.10 Mae'r ymatebion wedi'u categoraiddio fesul sector fel y nodir yn Nhabl 1.1. Cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o ymatebion, gyda chyrff proffesiynol neu grwpiau â buddiant yn dilyn.

Tabl 1.1: Categoriadau'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad¹

Sector	Ymatebion (Nifer)	Cyfran (Canran)
Unigolion	20	12
Cyrff Cyhoeddus	51	30
Busnesau	3	2
Cyrff Proffesiynol neu Grwpiau â Buddiant	38	22
Y trydydd sector	52	30
Arall	7	4
Cyfanswm	171	100

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 1.11 Cafodd pob ymateb i'r ymgynghoriad ei godio gan y tîm ymchwil yn ôl y sectorau a nodwyd yn Nhabl 1.1 (e.e. Unigolyn 1, Unigolyn 2 ac ati). Yna cafodd yr holl ymatebion eu mewnfario a'u mewnbynnu i daenlen dadansoddi ymgynghoriad benodol² a alluogodd y tîm ymchwil i ddadansoddi'r holl ymatebion a gafwyd i bob un o'r 18 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori.

Strwythur yr adroddiad

- 1.12 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch prif themâu a chwestiynau'r ymgynghoriad. Mae Pennod 2 yn ystyried y pum cwestiwn cyffredinol a osodwyd gan yr ymgynghoriad, gan gynnwys barn yr ymatebwyr ar y dangosyddion y gellid eu gwella, y rhai y dylid eu dileu a'r rhai a hepgorwyd. Yna mae Pennod 3 yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a oedd yn benodol i ddangosyddion (cwestiynau chwech i 17).

¹ Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu dosbarthiad eu hunain. Lle na wnaed hynny, dosbarthwyd ymatebion gan dîm Old Bell 3.

² A rannwyd â Llywodraeth Cymru ers hynny.

2. Ymatebion i Gwestiynau Cyffredinol

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r pum cwestiwn cyffredinol cyntaf a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl bod y set arfaethedig, yn ei chyfanrwydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant?

2.2 Cafwyd cyfanswm o 113 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn hwn. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a gafwyd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o leiaf yn cytuno'n gyffredinol â'r set arfaethedig o ddangosyddion, er bod y cwestiwn caeedig, a geir yn Nhabl 2.1, yn awgrymu barn ychydig yn fwy cymysg rhwng y sawl a oedd yn cytuno a'r sawl a oedd yn anghytuno. Mae'r ymatebion ansoddol yn awgrymu bod llawer o'r rheini a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn o'r farn (a) bod y ddogfen ymgynghori yn fan cychwyn da³, ond bod dangosyddion neu fesurau y gellid eu gwella, eu newid neu eraill yr oedd angen eu cynnwys; a/neu (b) bod angen i rai dangosyddion naill ai gael eu hegluro ymhellach neu eu datblygu ymhellach.

Tabl 2.1: Barn ynghylch p'un a wnaiff y dangosyddion arfaethedig asesu'n llawn p'un a wneir cynnydd

Ymateb	Nifer yr Ymatebion	Cyfran
Cytuno'n Gryf	2	1%
Cytuno	56	33%
Anghytuno	41	24%
Anghytuno'n Gryf	3	2%
Dim ymateb/Ddim yn gwybod	69	40%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

2.3 O'r ymatebion hynny a oedd yn cytuno â'r cwestiwn hwn, cafwyd barn gyffredinol bod y rhestr o ddangosyddion yn cynrychioli set briodol o ffactorau i bennu llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethol (Sefydliad Proffesiynol 35). Canmolodd sawl ymatebydd (o leiaf 20) Lywodraeth

³ Nodwyd yn benodol gan saith ymatebydd

Cymru am y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar y Ddeddf ei hun, yn ogystal â'r gwaith o ddatblygu'r dangosyddion cenedlaethol arfaethedig, gan ychwanegu bod y ffocws priodol ar fesur canlyniadau lefel uchel i'w groesawu. Er yn dal i gytuno, roedd ymatebwyr eraill yn fwy claeaf o ran eu hymateb cyffredinol, er enghraifft, nodwyd eu bod yn anodd dweud p'un a oedd y dangosyddion yn cynnig asesiad llawn o gynnydd yn erbyn yr holl nodau llesiant, ond credwyd eu bod yn rhoi trosolwg cyffredinol da o gynnydd (Corff Cyhoeddus 6).

- 2.4 Derbyniwyd a chroesawyd yn gyffredinol fod y set arfaethedig o ddangosyddion yn eang eu cwmpas ond holodd yr ymatebwyr yn fynych p'un a gyflawnwyd y cydbwysedd cywir rhwng yr holl ddangosyddion. Fodd bynnag, ni chafwyd consensws bod un maes gweithgarwch wedi'i dangynrychioli ond y meysydd a nodwyd fwyaf (lle teimlai'r ymatebwyr y gallai fod peth tangynrychiolaeth) oedd dangosyddion iechyd, economaidd a diwylliannol. Ar y cyfan, credai'r ymatebwyr fod dangosyddion cymdeithasol wedi'u cwmpasu'n ddigonol.
- 2.5 Mynegodd rhai ymatebwyr eu pryder ynghylch anghydbwysedd canfyddedig rhwng nifer y dangosyddion a oedd yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant. Er enghraifft, tra bod yr ymgynghoriad yn cynnig wyth dangosydd i gyfrannu at Nod 6 (Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu) mae gan eraill nifer sylweddol mwy (e.e. mae gan Nod 3 Cymru lachach 32 o ddangosyddion sy'n cyfrannu ato). Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, gwnaed dau brif awgrym. Yn gyntaf, gallai fod lle i addasu rhai dangosyddion fel eu bod yn cyfrannu'n fwy cyfartal at bob nod. Yn ail, gallai fod yn briodol adolygu'r nodau a gyflawnwyd gan bob dangosydd oherwydd dadleuodd ambell ymatebydd fod rhai wedi'u methu e.e. ar hyn o bryd mae dangosydd 27 (pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon) ond yn cyfrannu at ddau nod llesiant lle credid y gallai gyfrannu at bedwar i gyd (Cymunedau Cydlynus a Diwylliant Bywiog oedd y ddau arall).
- 2.6 Nododd llawer o ymatebwyr fod nifer o ddangosyddion heb gael eu diffinio hyd yma ac awgrymwyd bod hyn yn wendid cyffredinol o ran y

ddogfen ymgynghori. Y dangosyddion y credwyd eu bod wedi'u datblygu llai oedd ecosystemau iach (dangosydd 32), amgylchedd naturiol bioamrywiol (dangosydd 33) ac ôl-troed byd-eang (dangosydd 38). Awgrymwyd bod y dangosyddion penodol hyn yn sail i sawl dangosydd (a mesur) arall a gynigiwyd (e.e. dangosydd 35 ansawdd yr aer a dangosydd 29 eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd) a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r ymatebwyr arddel barn bendant ynghylch ymarferoldeb yr hyn a gynigiwyd. Dadleuodd ambell ymatebydd na ddylid eu cynnwys oni bai eu bod yn cael eu datblygu'n llawn (Corff Cyhoeddus 34).

- 2.7 Un thema gyffredin a gododd mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf hwn oedd nad oedd y ddogfen ymgynghori yn nodi prif benawdau, nac ychwaith benawdau ail haen felly, o'r rhestr arfaethedig o 40 ac y byddai hyn yn gofyn am ragor o waith datblygu. Cydnabuwyd bod rhai o'r dangosyddion yn ymddangos yn fwy strategol nag eraill ond nid oedd yr ymatebwyr yn glir yn gyffredinol ynghylch pa ddangosyddion a ddylai ddod yn brif rai. Er enghraifft, nodwyd nad oedd yn glir p'un a oedd dangosydd 32 'ecosystemau iach' yn brif ddangosydd gydag is-ddangosyddion ar fioamrywiaeth, pridd, ansawdd yr aer, dŵr ac ati (Arall 7).
- 2.8 Ar y cyfan, derbyniodd yr ymatebwyr fod angen i'r rhestr o ddangosyddion fod yn ymarferol ac yn hydrin, a bod 40 yn rhif priodol yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, nododd rhai o'r ymatebwyr, gan fod is-ddangosyddion ar waith ar gyfer rhai dangosyddion eisoes (e.e. dangosyddion 02, 05 ac 07), fod y nifer gyffredinol o ddangosyddion eisoes yn uwch na 40 mewn gwirionedd. Cydnabu'r ymatebwyr hefyd fod rhai dangosyddion yn rhyng-gysylltu ag eraill ac yn effeithio ar eraill ac, fel y cyfryw, roedd angen nodi'n ffurfiol y cysylltiadau rhwng dangosyddion er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy cyfannol. Awgrymwyd bod angen llawer mwy o eglurder a manylder o ran cydberthynas y dangosyddion gwahanol, sut mae mesurau unigol yn cyfrannu at ddangosyddion lluosog a sut mae dangosyddion lluosog yn cyfrannu at gynnydd yn erbyn sawl nod (Trydydd Sector 6).

- 2.9 Nododd nifer fach o'r ymatebwyr, er bod rhai dangosyddion wedi'u fframio'n gadarnhaol, roedd eraill wedi mabwysiadu dehongliad negyddol (e.e. roedd dangosydd 08 pobl mewn gwaith yn un cadarnhaol tra bod dangosydd 12 pobl sy'n byw mewn tlodi yn un negyddol). Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid mwy o gysondeb ac, yn arbennig, y defnydd o deitlau cadarnhaol ar gyfer pob dangosydd (e.e. yn achos dangosydd 21 defnyddio 'pobl sy'n teimlo eu bod wedi'u cysylltu'n gymdeithasol' yn lle 'pobl sy'n teimlo'n unig').
- 2.10 Roedd thema arall a ddaeth i'r amlwg mewn ymateb i gwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad yn ymwneud â mesur a ffynhonnell data i'w defnyddio er mwyn asesu cynnydd. Roedd sawl ymatebydd o'r farn ei bod yn amhriodol dibynnu ar un ffynhonnell ddata er mwyn mesur dangosydd a galwyd ar i Lywodraeth Cymru ailystyried p'un a ddylid mabwysiadu sawl mesur data lle bo'n briodol.
- 2.11 Hefyd, rhannodd sawl ymatebydd eu pryder ynghylch y ddibyniaeth ar fesurau 'goddrychol', gan ffafrio dulliau mwy gwrthrychol yn lle hynny. Er enghraifft mynegwyd pryder bod gorddibyniaeth ar fesurau goddrychol o risgiau llesiant yn creu darlun mwy cadarnhaol na'r hyn a oedd yn wir yn wrthrychol. Yn sgil hynny, argymhellwyd defnyddio setiau data mwy amrywiol, er mwyn creu darlun mwy cyfannol, a llywio'r broses gwneud penderfyniadau yn well (Trydydd Sector 27).
- 2.12 Yn unol â hyn, mynegodd sawl ymatebydd (o leiaf chwech) eu pryder ynghylch yr hyn a ganfuwyd ganddynt fel gorddibyniaeth ar Arolwg Cenedlaethol Cymru fel ffynhonnell ddata ar gyfer 14 o ddangosyddion i gyd. Yn ogystal â phryderon ynghylch gwrthrychedd canfyddedig y ffynhonnell ddata hon, roedd pryderon eraill yn cynnwys p'un a fyddai meintiau sampl yn ddigonol at ddibenion dadansoddi ar lefel awdurdod lleol. Holodd eraill p'un a fyddai'r fethodoleg samplu ar gyfer yr arolwg ei hun yn cael ei gwella er mwyn sicrhau bod aelwydydd nas cynhwyswyd ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys mewn arolygon yn y dyfodol.

- 2.13 Hefyd, nododd nifer o'r ymatebwyr eu pryderon ynghylch y diffyg sylw i farn a statws plant a phobl ifanc yn y set o ddangosyddion arfaethedig. Er enghraifft, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion sy'n gofyn am safbwyntiau a phrofiadau pobl, er enghraifft, boddhad â'r ardal lle maent yn byw a theimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, wedi'u cynnig i gasglu safbwyntiau oedolion yn unig (Corff Cyhoeddus 11). Yn unol â hyn, pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd fod bwlch penodol rhwng y dangosyddion arfaethedig i fesur canlyniadau i blant/pobl ifanc rhwng oedran cyn ysgol a 15/16 oed. Nododd un cyfrannwr o'r fath fod bwlch mawr rhwng Dangosydd Cenedlaethol 4 (mesur plant cyn oed ysgol) a [Dangosydd Cenedlaethol 5] pobl ifanc sy'n sefyll TGAU, ond nad oedd unrhyw fesur ar gyfer plant a phobl ifanc yn y canol (Corff Cyhoeddus 44).
- 2.14 Mater cyffredin arall a godwyd, er gan lai o ymatebwyr yn gyffredinol, oedd y diffyg ffocws ar themâu trawsbynciol wrth fesur y set o ddangosyddion a gynigiwyd. Y meini prawf a nodwyd fwyaf oedd rhywedd, iaith, ethnigrwydd, oedran, anabledd neu statws economaidd-gymdeithasol.

Cwestiynau 2, 3 a 4: Dangosyddion y gellid eu gwella, na ddylid eu cynnwys neu sydd angen eu cynnwys yn y rhestr

- 2.15 Dengys Tabl 2.2 fod nifer fawr o'r ymatebwyr yn credu y gellid gwneud gwelliannau ac ychwanegiadau i'r rhestr arfaethedig o ddangosyddion. Gallai llai o ymatebwyr nodi dangosyddion y credwyd ganddynt eu bod heb eu cynnwys ac y dylid eu hychwanegu at y rhestr.

Tabl 2.2: Prif ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 4

Cwestiwn	Cytuno	Anghytuno	Dim ymateb
A oes unrhyw ddangosyddion y gellid eu gwella?	92	11	68
A oes unrhyw ddangosyddion na ddylid eu cynnwys?	36	56	79
A oes unrhyw ddangosyddion y dylid eu cynnwys?	62	26	83

- 2.16 Rhoddodd tua 109 o ymatebwyr ymateb ansoddol i gwestiwn 2 (dangosyddion y gellid eu gwella) a'r cwestiwn hwn a ysgogodd yr ymateb mwyaf, o ran nifer yr ymatebion a'u hyd. Rhestrodd llawer o'r ymatebwyr y dangosyddion y credwyd ganddynt fod angen eu gwella ond ni roddwyd unrhyw resymeg nac awgrymiadau ymarferol i wneud hynny. Fodd bynnag, cynigiodd eraill welliannau manwl ac roeddent yn dueddol o fod naill ai'n (a) arsylwadau neu ystyriaethau cyffredinol; (b) mân welliannau neu (c) newidiadau sylfaenol i'r mesurau arfaethedig.
- 2.17 Yn y paragraffau canlynol, trafodwn y prif faterion a'r gwelliannau a awgrymwyd fwyaf gan yr ymatebwyr i'r dangosyddion arfaethedig. Gan fod Pennod 3 o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n fanwl ar faterion a godwyd mewn perthynas â dangosyddion 03, 23, 24, 25, 26, 31, 33, 34, 39 a 40 (mewn ymateb i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd) ni chânt eu trafod isod.

Dangosydd 01 Babanod a enir yn iach o ran eu pwysau⁴

- 2.18 Awgrymwyd yn gryf y dylai'r dangosydd hwn:
- Gael ei fesur fel cyfran o'r holl enedigaethau fel bod modd asesu newid dros amser.
 - Hefyd ystyried p'un a yw'r dangosydd ond yn cwmpasu genedigaethau unigol (nid genedigaethau lluosog, y gwyddys eu bod o bwysau geni is ar gyfartaledd).
 - Sicrhau gwell cysondeb rhwng y dangosydd 'cadarnhaol' 'yn iach o ran eu pwysau' a phwyslais 'negyddol' y mesur ar fabanod 'dan bwysau': nodwyd y dylai'r teitl naill ai gael ei newid neu y dylai'r mesur adlewyrchu teitl y dangosydd (Corff Cyhoeddus 33).

Dangosydd 02 Disgwyliad oes iach i bawb

- 2.19 Ni nodwyd unrhyw welliannau cyffredin na phenodol ar gyfer y dangosydd hwn.

⁴ Roedd yr ymatebwyr yn unfrydol eu barn ynghylch y tri phwynt hyn, gan awgrymu bod y sector wedi trafod y dangosydd hwn yn fanwl ac wedi dod i farn gytûn ynghylch y gwelliannau angenrheidiol.

Dangosydd 04 Plant ifanc sy'n datblygu'r sgiliau iawn

2.20 Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol gan sawl ymatebydd:

- Roedd rhai yn pryderu y byddai'r ffynhonnell ddata yn destun newid gan olygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau.
- Awgrymodd eraill y gallai'r Asesiad Sylfaenol o'r Cyfnod Sylfaen fod yn ffynhonnell ddata fwy defnyddiol, ond ni chafwyd digon o eglurder o ran sut y gallai gael ei ddefnyddio.
- Awgrymodd rhai y dylai'r dangosydd gael ei ymestyn i blant bach sy'n datblygu sgiliau sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu.
- Holodd eraill sut y byddai'r dangosydd hwn yn cael ei fesur, o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o blant 2 oed, a lleiafrif sylweddol o blant 3 oed, mewn lleoliad addysg ffurfiol.

Dangosydd 05 Pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau

2.21 Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Credwyd y dylai'r mesur gael ei ddiffinio'n well h.y. naill ai ar fyfyrwyr 16 oed ar ddiwedd y tymor neu ar fyfyrwyr 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
- Awgrymwyd y gallai'r mesur gael ei wella drwy ehangu'r ffocws y tu hwnt i gymwysterau i gynnwys sgiliau pwysig eraill (e.e. llythrennedd ariannol, sgiliau digidol).
- Cafwyd peth pryder na fyddai'r cyhoedd yn deall y diffiniad o 'sgôr pwyntiau wedi'i chapio' ar gyfartaledd.
- Roedd barn gymysg ynghylch p'un a oedd mesur trothwy lefel 2 yn briodol.
- Lle i gyfuno'r dangosydd â 06 (poblogaeth addysgedig a medrus).

Dangosydd 06 Poblogaeth addysgedig a medrus

2.22 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r dangosydd hwn fod yn adlewyrchu dwy elfen - addysg a sgiliau, ond bod y mesur ond yn canolbwyntio ar addysg.

- 2.23 Awgrymodd rhai fod hefyd angen i brofiad a sgiliau gael eu hadlewyrchu yn y mesur.
- 2.24 Cwestiynodd ambell ymatebydd y ffocws ar lefelau 3 a 4 yn unig - yn ddelfrydol byddai'n well gan yr ymatebwyr hyn weld y dangosydd yn adlewyrchu pob cymhwyster (o ddim un cymhwyster i Lefel 8) yn ôl grwpiau oedran gwahanol.

Dangosydd 07 Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

- 2.25 Ni nodwyd unrhyw welliannau cyffredin na phenodol ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 08 Pobl mewn gwaith

- 2.26 Nodwyd y materion canlynol:

- Pryderon nad yw'r data ar y gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oedran gweithio ar eu pen eu hunain yn ystyried ansawdd (cyflog) a sicrwydd swyddi.
- Rhai awgrymiadau y byddai'n ddefnyddiol dadgyfuno'r data yn ôl oedran er mwyn nodi pobl ifanc mewn gwaith/allan o waith (yn enwedig y grŵp oedran 16-25).

Dangosydd 09 Gweithlu cynhyrchiol

- 2.27 Ni nodwyd unrhyw welliannau cyffredin na phenodol ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosydd 10 Busnesau Arloesol

- 2.28 Prin iawn oedd y sylwadau a gafwyd ar y dangosydd hwn. O'r rhai a wnaeth sylw:
- Holodd nifer fach p'un a oedd y ffocws ar 'arloesedd' yn wrthgynhyrchiol o ran yr agenda cynaliadwyedd a amlinellwyd drwy'r Ddeddf.
 - Credwyd y gallai diffiniad clir o arloesedd gael ei ychwanegu'n ddefnyddiol er mwyn gwneud y mesur hwn yn fwy ystyrion.

Dangosydd 11 Lefelau incwm aelwydydd

- 2.29 Mynegodd nifer o'r ymatebwyr rai pryderon ynghylch defnyddio incymau aelwydydd cymedrig er mwyn mesur y dangosydd hwn. Byddai'n well gan y rhai a wnaeth y sylw hwn weld incwm aelwydydd canolrifol yn cael ei fabwysiadu (er gwaethaf y cyfyngiadau o ran data). Awgrymwyd yn gryf y byddai incwm aelwydydd cymedrig yn cynnig darlun iachach (Trydydd Sector 22) ac y byddai hefyd yn celu'r ffaith y gallai'r rheini mewn tlodi beidio â phrofi unrhyw welliannau o ran ansawdd bywyd, er gwaethaf cynnydd mewn lefelau incwm aelwydydd cymedrig. Awgrymwyd y byddai mesur aelwydydd canolrifol yn darparu data mwy cadarn ar ddisbarthiad incwm pob aelwyd.
- 2.30 Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r mesur arfaethedig gael ei wella petai'n ystyried incwm cyn ac ar ôl costau tai.

Dangosydd 12 Pobl sy'n byw mewn tlodi

- 2.31 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan sawl ymatebydd:
- Y brif neges a oedd yn cael ei chyfleu oedd yr angen i ystyried tlodi tanwydd fel rhan o'r mesur ar gyfer y dangosydd hwn.
 - Hefyd, dadleuodd yr ymatebwyr o blaid mwy o eglurhad o'r diffiniad i'w ddefnyddio h.y. p'un a gaiff ei fesur yn erbyn incwm canolrifol Cymru yn hytrach nag incwm cymedrig y DU. Roedd yn well gan yr ymatebwyr fesur a fyddai'n berthynol i incwm cymedrig y DU ar sail y ffaith y byddai nifer y bobl mewn tlodi cymharol yn uwch. Dywedwyd petai lefel gymedrig Cymru yn cael ei defnyddio y byddai hyn yn cymryd nifer o bobl allan o dlodi cymharol (Corff Cyhoeddus 35).
 - Cafwyd peth awgrym y dylai'r dangosydd hwn fabwysiadu diffiniad clir o dlodi yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau, yn hytrach na'r mesur seiliedig ar incwm safonol. Yn hyn o beth, awgrymwyd bod y dangosydd fel y mae yn atgyfnerthu'r syniad bod tlodi wedi'i ddiffinio gan incwm cymharol a hynny'n anfuddiol (Corff Cyhoeddus 38).

Dangosydd 13 Pobl sy'n gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd

2.32 Gwnaed y pwyntiau cyffredin canlynol gan yr ymatebwyr:

- Awgrymwyd y gallai lefelau o dlodi tanwydd gael eu cynnwys yn y mesur ar gyfer y dangosydd hwn.
- Cafwyd barn gyson y dylai'r dangosydd hwn gael ei fesur yn gyfannol er mwyn rhoi darlun mwy cynhwysfawr o dlodi yng Nghymru.
- Awgrymodd rhai y gallai'r dangosydd hwn gael ei fesur mewn ffordd fwy gwrthrychol a oedd yn ystyried costau aelwydydd ynghyd â data ar incwm (e.e. cynnwys costau morgeisi a rhent, lefelau tlodi tanwydd, adroddiadau goddrychol ar fforddiadwyedd ad-dalu dyledion aelwydydd, cost 'basged nwyddau' MPM5 a MPD6, tueddiadau yng nghost biliau ynni a dŵr yn ogystal â biliau bob dydd eraill).
- Awgrymodd ambell un y gallai'r dangosydd hwn gael ei gyfuno â dangosydd 12 (pobl sy'n byw mewn tlodi) er mwyn creu un dangosydd cyfannol cyfansawdd ar dlodi.

Dangosydd 14 Pobl sy'n fodlon yn eu gwaith

2.33 Ychydig iawn o ymatebwyr a awgrymodd welliannau i'r dangosydd hwn.

2.34 Mynegodd rhai ymatebwyr eu pryderon ynghylch y ddibyniaeth ar ganfyddiadau goddrychol o foddhad (ar gyfer dangosyddion 14 a 15) a dim ond adrodd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, nodwyd bod y ffaith bod cynifer o resymau posibl dros fod yn fodlon neu'n anfodlon yn golygu ei bod yn anodd pennu pa gamau i'w cymryd o ganlyniad i sgôr uchel neu isel.

⁵ Mynegai Prisiau Manwerthu

⁶ Mynegai Prisiau Defnyddwyr

2.35 Hefyd, awgrymwyd y gallai Arolwg Cenedlaethol Cymru ofyn cwestiynau dilynol er mwyn deall pam bod pobl yn fodlon neu'n anfodlon.

Dangosydd 15 Pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi

2.36 Ychydig iawn o ymatebwyr a awgrymodd welliannau i'r dangosydd hwn. Y prif bwynt oedd pryder ynghylch defnyddioldeb a pherthnasedd y dangosydd hwn a bod modd ei ddehongli.

Dangosydd 16 Naws cymuned

2.37 Ni nodwyd unrhyw welliannau cyffredin na phenodol.

Dangosydd 17 Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol

2.38 Ychydig iawn o ymatebwyr a awgrymodd welliannau i'r dangosydd hwn. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu bod y dangosydd hwn braidd yn amwys.

2.39 Awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr y gallai'r dangosydd hefyd gynnwys mesur ynghylch cyfran y bobl sy'n pleidleisio.

Dangosydd 18 Pobl sy'n gwirfoddoli

2.40 Ymhlith y materion a godwyd mewn perthynas â'r dangosydd hwn roedd:

- Nododd rhai ymatebwyr fod y term gwirfoddoli yn gysylltiedig â gwirfoddoli eithaf ffurfiol ac y byddai'n well ganddynt fesur fel 'cyfran y bobl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwirfoddol yn eu hardal leol'.
- Roedd pryder ynghylch p'un a gaiff gofalwyr di-dâl eu cynnwys yn y diffiniad o 'gwirfoddoli' - roedd yn well gan yr ymatebwyr drin y ddau gategori ar wahân (gan fod effeithiau llesiant ar yr unigolyn yn amrywio).
- Rhoddodd un ymateb gwestiynau a diffiniadau manwl y gellid eu mabwysiadu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru (gweler Trydydd Sector 43).

Dangosydd 19 Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at gyfleusterau

2.41 Ymhlith y materion a godwyd mewn perthynas â'r dangosydd hwn roedd:

- Peth pryder y gallai'r dangosydd fod yn rhy gyffredinol i fod o ddefnydd.
- Posibilrwydd o'i ddadgyplu'n ddau fesur - un yn canolbwyntio ar gael gafael ar wasanaethau sy'n gwella bywydau pobl a'r llall ar gael gafael ar wasanaethau sy'n gwneud i bobl deimlo'n ddiogel.
- Awgrymwyd bod angen gwahaniaethu rhwng y data ar gyfer ymatebion gwledig a threfol.

Dangosydd 20 Pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau

2.42 Awgrymodd rhai ymatebwyr y canlynol:

- Gellid cyfeirio'n fwy at 'ofn trosedd' fel mesur.
- Gallai'r canfyddiad o ddiogelwch (fel y'i mesurir drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru) greu darlun gwahanol i ffynonellau data eraill. Felly, awgrymwyd defnyddio data gwrthrychol ar gyfer trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

Dangosydd 21 Pobl sy'n teimlo'n unig

2.43 Ni nodwyd unrhyw welliannau cyffredin na phenodol.

Dangosydd 22 Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb

2.44 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod adnodd Warwick-Caeredin yn gadarn ond nodwyd nad oedd yn ddigon sensitif i newid a'i bod yn anodd ei drosi'n fesurau economaidd. Awgrymwyd y dylai'r adnoddau a ddefnyddir i fesur y dangosydd hwn gael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dangosydd 27 Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon

2.45 Cododd yr ymatebwyr y materion canlynol:

- Credwyd bod angen diffiniad cliriach o 'chwaraeon'.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r dangosydd hwn hefyd gynnwys mesur ar 'weithgarwch corfforol' (yn hytrach nag o fewn dangosydd 03).

Dangosydd 28 Gofalu am ein treftadaeth ddiwylliannol

2.46 Ymhlith y materion a godwyd mewn perthynas â'r dangosydd hwn roedd:

- Credai rhai o'r ymatebwyr nad oedd y dangosydd hwn wedi'i ddiffinio'n ddigonol ar hyn o bryd.
- Hefyd, awgrymwyd y gallai'r dangosydd hwn ymgorffori 'gofalu am ein tirlun' (er i eraill ddadlau y dylai fod dangosydd ar wahân ar gyfer hyn).

Dangosydd 29 Eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd

2.47 Awgrymodd rhai ymatebwyr:

- Y dylai'r dangosydd hwn fesur canran yr eiddo (yn hytrach na nifer yr eiddo) sydd mewn perygl o lifogydd at ddibenion cymharu.
- Roedd angen i'r dangosydd hwn ystyried a gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o eiddo; er mwyn cwmpasu llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin (nid dim ond afonydd a'r môr fel y cynigiwyd); ac ystyried mabwysiadu'r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol fel ffynhonnell ddata.
- Awgrymwyd hefyd y gallai'r dangosydd fabwysiadu datganiad mwy cadarnhaol e.e. eiddo a ddiogelwyd yn sgil buddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd newydd.

Dangosydd 30 Effeithlonrwydd ynni adeiladau

2.48 Awgrymodd rhai ymatebwyr y canlynol:

- Roedd angen i'r dangosydd hwn gael ei ddiffinio'n well a dylai wahaniaethu rhwng effeithlonrwydd cartrefi newydd a chartrefi sy'n bodoli eisoes.

- Byddai'r Tystysgrifau Perfformiad Ynni a gynigiwyd fel y ffynhonnell ddata ond yn rhoi data ar effeithlonrwydd ynni'r adeilad petai'n cael ei redeg yn y ffordd orau bosibl - ni fyddai o reidrwydd yn dangos yr ynni a ddefnyddiwyd i redeg yr adeilad fel arall.
- Gellid ystyried mesur amgen, sef Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos, a fyddai'n nodi gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni yn gyflymach. Gallai'r rhain hefyd fod yn gymwys i adeiladau annomestig.

Dangosydd 35 Ansawdd yr aer

- 2.49 Lleisiodd yr ymatebwyr farn gref gyffredin nad oedd y dangosydd arfaethedig yn briodol, yn bennaf am ei fod yn seiliedig ar ddata llygredd aer wedi'u modelu yn hytrach na data gwirioneddol.
- 2.50 Gwnaeth llond llaw o'r ymatebwyr awgrymiadau manwl ar gyfer dangosydd amgen (yn benodol 'crynnodiadau PM2.5, PM10 ac NO2 mesuredig cyfartalog Cymru' neu 'y newid canrannol yng nghrynnodiadau PM2.5, PM10 ac NO2 mesuredig cyfartalog Cymru'). Dadleuodd yr ymatebwyr hyn y byddai dangosydd o'r fath (a fesurwyd yn unigol fel cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer pob llygrydd) yn defnyddio data ansawdd aer wedi'u mesur yn hytrach na wedi'u modelu, o bob lleoliad monitro yng Nghymru.

Dangosydd 36 Ansawdd y pridd

- 2.51 Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r dangosydd hwn naill ai gael ei ddiwygio, neu y dylid datblygu dangosydd ychwanegol, a fyddai'n cynnwys cyfeiriad at halogi tir. Gallai mesur awgrymedig (neu ddangosydd newydd) gael ei ddiffinio fel 'ardal o dir a ddynodwyd yn flaenorol fel tir halogedig' a gallai gael ei fonitro gan awdurdodau lleol neu fod yn ddata a gyflenwyd gan awdurdodau lleol.
- 2.52 Fel y mae, awgrymodd rhai ymatebwyr fod y dangosydd yn canolbwyntio gormod ar faterion gwledig ac amaethyddol heb roi digon o ystyriaeth i ardaloedd tir llwyd neu drefol.

- 2.53 Ar hyn o bryd, ni chredwyd bod y dangosydd yn ystyried sut mae ansawdd y pridd hefyd yn effeithio ar ansawdd y dŵr.

Dangosydd 37 Gwastraff na chaiff ei ailgylchu

- 2.54 Ychydig iawn o welliannau ymarferol a awgrymwyd ar gyfer y dangosydd hwn ond rhannwyd rhai safbwyntiau cyffredinol. Yn arbennig, ni chredwyd bod y geiriad yn gyson â dull cynaliadwy o weithredu. Dadleuodd yr ymatebwyr y dylid canolbwyntio ar gamau mwy ataliol h.y. dileu gwastraff wrth y ffynhonnell.
- 2.55 Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr p'un a oedd angen gwahaniaethu rhwng gwastraff domestig a gwastraff busnes yn ogystal â gwastraff a ailgylchwyd ac nas ailgylchwyd.
- 2.56 Awgrymwyd hefyd y dylai'r dangosydd ystyried mesur 'deunydd a ailgylchwyd y pen'.

Dangosydd 38 Ôl-troed byd-eang

- 2.57 Roedd gwahaniaeth barn mewn perthynas â'r dangosydd hwn, gyda rhai yn dweud y dylai'r mesur ganolbwyntio ar 'ôl-troed amgylcheddol' tra bod yn well gan eraill gyfuniad o 'olion troed carbon a deunydd'.
- 2.58 Er y credwyd bod yr Ôl-troed Ecolegol a gynigiwyd yn adnodd defnyddiol a ddefnyddiwyd yn eang, ni chredwyd bod y dangosydd yn ystyried datblygiadau mwy diweddar, fel yr Ôl-troed Deunyddiau sy'n ddangosydd seiliedig ar ddefnydd. Awgrymwyd bod angen ystyried y mesur hwn ymhellach.
- 2.59 Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr nad oedd y dangosydd presennol yn cynnig methodoleg dryloyw a allai olygu bod y mesur yn annibynadwy efallai.

Dangosyddion na ddylid eu cynnwys

- 2.60 Fel rhan o'r ymgynghoriad rhoddodd 62 o'r ymatebwyr naratif ansoddol mewn ymateb i gwestiwn tri (er na wnaeth rhai o'r rhain nodi unrhyw ddangosyddion penodol na ddylid eu cynnwys). Un farn gyffredin a rannwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd na ddylid cynnwys y dangosyddion a ddatblygwyd leiaf (h.y. y rhai a danlinellwyd yn y

ddogfen ymgynghori fel rhai i'w datblygu/i gytuno arnynt) yn y rhestr lawn o ddangosyddion.

- 2.61 Y dangosyddion a nodwyd fwyaf gan yr ymatebwyr fel rhai na ddylid eu cynnwys oedd dangosyddion 38 (ôl-troed byd-eang), 39 (dinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang) a 40 (cyfrifoldebau rhyngwladol) gydag o leiaf 10 o'r ymatebwyr o'r farn na ddylid cynnwys y rhain. Ymhlith y rhesymeg dros beidio â'u cynnwys roedd y ffaith mai'r rhain oedd y dangosyddion a ddatblygwyd leiaf a bod dangosydd 40 yn arbennig yn ganlyniad naratif yn hytrach na chanlyniad mesuradwy. Yn hytrach na pheidio â'u cynnwys, awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr y dylid cyfuno'r dangosyddion hyn (yn arbennig dangosyddion 39 a 40 a dangosyddion 39 a 18 (pobl sy'n gwirfoddoli)).
- 2.62 Holodd llai o'r ymatebwyr p'un a oedd angen dangosydd 27 (pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon), o ystyried bod dangosydd 03 (mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw) eisoes yn trafod gweithgarwch corfforol. Cwestiynodd yr ymatebwyr hyn y rhesymeg dros nodi chwaraeon fel dangosydd annibynnol gan nad oedd, yn eu barn hwy, yn bwysicach na'r elfennau eraill a oedd yn cyfrannu at ddangosydd 03.
- 2.63 Ystyriodd nifer o'r ymatebwyr gyfuno dangosyddion, yn hytrach na pheidio â'u cynnwys, ac roedd cryn dipyn o'r drafodaeth hon yn canolbwyntio ar ddangosyddion 15, 16, 17 a 21. Awgrymodd sawl ymatebydd y posibilrwydd o gyfuno dangosyddion 15 (pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynnddi) ac 16 (naws cymuned). Roedd y rhesymeg dros wneud hynny yn bennaf seiliedig ar y ffaith bod dangosydd 15 yn cael ei ystyried yn 'amwys iawn' ar hyn o bryd a heb ei ddatblygu'n dda iawn. Aeth ambell ymatebydd ymhellach gan awgrymu y gallai dangosydd 21 (pobl sy'n teimlo'n unig) gael ei gyfuno â dangosyddion 15 ac 16 hefyd. Awgrymwyd y gallai'r dangosyddion hyn gael eu mesur yn fwy effeithiol petaent yn cael eu cyfuno, a/neu eu mesur gan ddata gwrthrychol. Fodd bynnag, awgrymodd ymatebwyr eraill y gellid cyfuno dangosyddion 16 a 17 (naws cymuned ac mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol).

2.64 Hefyd, awgrymodd sawl ymatebydd yn gryf y dylid cyfuno rhai o'r dangosyddion amgylcheddol (yn enwedig dangosyddion 34 ansawdd y dŵr, 35 ansawdd yr aer a 36 ansawdd y pridd) yn ddangosydd llygredd neu amgylcheddol cyfansawdd. Aeth eraill ymhellach, gan ychwanegu dangosydd 33 (amgylchedd naturiol bioamrywiol) at y rhestr o ddangosyddion posibl y gellid eu cyfuno'n un dangosydd ar gyfer yr holl fesurau amgylcheddol o dan faner 'ecosystemau iach' (dangosydd 32).

Dangosyddion y credwyd eu bod heb eu cynnwys ac y dylid eu cynnwys

- 2.65 Cafwyd cyfanswm o 73 o ymatebion ansoddol i gwestiwn 4 a chwblhawyd 88 o dempledi dangosyddion newydd.
- 2.66 Roedd a wnelo'r **pedair prif thema** y credwyd eu bod heb eu cynnwys ymhlith y dangosyddion arfaethedig â chydraddoldeb rhwng y rhywiau (o leiaf 11 o ymatebwyr), mynediad i fannau gwyrdd (o leiaf 11 o ymatebwyr), cysylltedd (â thrafnidiaeth (10 o ymatebwyr) a chysylltedd digidol (pum ymatebydd) a nodwyd fwyaf)). At hynny, roedd a wnelo **pum thema arall** oedd heb eu cynnwys (ond a nodwyd gan lai o ymatebwyr) â thirweddau naturiol (pum ymatebydd), tloedi tanwydd (pum ymatebydd), dyled (tri ymatebydd), ynni adnewyddadwy (pum ymatebydd) a sŵn (pum ymatebydd)⁷. Awgrymwyd themâu eraill hefyd ac fe'u cyflwynir yn y tabl isod.
- 2.67 Yn ogystal â'r meysydd hyn na chredwyd eu bod yn cael eu cynnwys yn y dangosyddion arfaethedig, awgrymodd yr ymatebwyr hefyd fesurau 'ychwanegol' y dylid eu hystyried o fewn eu priod ddangosyddion - roedd y rhain yn cynnwys dangosyddion ym meysydd tai (dangosydd 23 ansawdd tai) a'r Gymraeg (dangosydd 26 pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol). Trafodir y rhain yn fanwl ym Mhennod 3.
- 2.68 Crynhoir y dangosyddion ychwanegol a nodwyd fwyaf lle credai'r ymatebwyr y dylid eu cynnwys yn Nhabl 2.43 isod. Wrth gwrs, mae'n werth nodi y gallai rhai o'r dangosyddion ychwanegol hyn gael eu

⁷ Mae nifer yr ymatebwyr a nodir yn y paragraff hwn ond yn ymwneud â'r rhai a nododd y meysydd hyn yn eu hymateb i gwestiwn 4. Cododd mwy o ymatebwyr y materion hyn mewn gwirionedd.

cynnwys o fewn rhai presennol, petai lle i fabwysiadu mwy nag un
mesur ar gyfer pob dangosydd:

Tabl 2.3 Dangosyddion newydd, ychwanegol arfaethedig

Dangosyddion newydd arfaethedig	Mesurwyd yn ôl
Prif Themâu	
Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau	<p>(i) Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Oriau ac Enillion</p> <p>(ii) Cynrychiolaeth merched mewn bywyd cyhoeddus a'r broses gwneud penderfyniadau drwy amrywiaeth o ffynonellau a ddygwyd ynghyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</p> <p>(iii) Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau a fyddai'n gofyn am ddatblygu setiau data newydd (ac a allai gymryd lle mesurau (i) a (ii) uchod dros amser)</p>
Mynediad i fannau gwyrdd agored	Cyfran y bobl â mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel wedi'i mesur drwy ddata Cyfoeth Naturiol Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a data'r Arolwg Cenedlaethol neu'r Asesiadau o Fannau Agored a gynhelir gan awdurdodau lleol.
Cysylltedd	<p>(i) Cyfran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi'u cysylltu'n ddigidol/cynnwys yn ddigidol wedi'i mesur drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.</p> <p>(ii) Hygyrchedd a thrafnidiaeth: nid oedd diffiniad na mesur clir ar gyfer hyn (roedd rhai yn canolbwyntio ar drafnidiaeth carbon is tra bod eraill yn canolbwyntio ar faterion cysylltedd)</p>
Gofalu am ein tirluniau	Nid awgrymwyd unrhyw ffynhonnell ddata na mesur arfaethedig clir - cydnabu rhai y byddai angen i'r dangosydd hwn gael ei ddatblygu ac awgrymodd eraill y gellid ei gynnwys yn nangosydd 28 (h.y. gofalu am ein treftadaeth ddiwylliannol).
Sŵn	Cyfran y bobl y mae sŵn yn effeithio arnynt. Gallai'r data ar gyfer y dangosydd hwn fod yn seiliedig ar yr

	adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd neu nifer yr achosion o ddod i gysylltiad â sŵn yn seiliedig ar Fapiau'r Gyfarwyddeb Sŵn Ewropeaidd. ⁸
Themâu Eraill	
Gorddyled	Cyfran y bobl sydd mewn gorddyled (h.y. unigolion sydd wedi bod o leiaf dri mis ar ei hôl hi gyda'u biliau yn y chwe mis diwethaf neu sydd wedi dweud eu bod yn teimlo bod eu dyledion yn faich trwm) wedi'i mesur drwy ymchwil Indebted Lives a gynhelir gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol neu Arolwg Cenedlaethol Cymru.
Tlodi tanwydd neu ddyled tanwydd	Cyfran y bobl sydd mewn tlodi tanwydd, wedi'i mesur drwy set ddata newydd (a fyddai'n cyfuno data o arolygon tai, prisiau ynni a data monitro lleol).
Lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	Ni chynigiwyd dangosydd na mesur penodol. Awgrymodd rhai y gallai hyn fod yn ddewis amgen i ddangosydd 20 (pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau).
Plant a phobl ifanc	Dangosydd newydd i gwmpasu canlyniadau plant a phobl ifanc rhwng oedran cyn ysgol a 15/16 oed. Ni chynigiwyd dangosydd na mesur penodol.
Gweithgarwch corfforol	Gofynnodd ambell ymatebydd am i weithgarwch corfforol gael ei ddatblygu'n ddangosydd annibynnol (a pheidio â'i gynnwys yn Nangosydd 3).
Ansawdd yr amgylchedd lleol	Arolygon System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (sy'n cofnodi glendid strydoedd drwy fesur sbwriel a dangosyddion ansawdd amgylcheddol andwyol fel tipio anghyfreithlon, graffiti a baw cŵn).
Ynni o ffynonellau adnewyddadwy	Cyfran yr ynni a ddaw o ffynonellau adnewyddadwy.
Tir wedi'i asesu a'i adfer rhag halogi	Ardal o dir a ddynodwyd yn flaenorol fel tir halogedig yng Nghymru ac a adferwyd at ddefnydd buddiol eto a fesurir drwy gofnodion awdurdodau lleol a Chyfoeth

⁸ Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r dangosydd newydd hwn gymryd lle dangosydd presennol 15 pobl sy'n fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi.

	Naturiol Cymru.
Allyriadau carbon	Allyriadau carbon y pen (Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru a rennir yn ôl y boblogaeth).
Ffermio a chynhyrchu bwyd	Credwyd nad oedd wedi'i gwmpasu gan unrhyw un o'r dangosyddion ond ni chynigiwyd unrhyw ddangosydd na mesur cyffredin.
Ôl-troed Deunyddiau	Cyfanswm y deunyddiau a ddefnyddiwyd (gan gynnwys nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd).
CDG	Cynnyrch Domestig Gros.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

2.69 Mae'n werth canolbwyntio ar brif thema cydraddoldeb rhwng y rhywiau y credai'r ymatebwyr nad oedd wedi'i chynnwys yn y rhestr o ddangosyddion oherwydd cafwyd barn gref ar y mater hwn. Dywedwyd bod peidio â chynnwys rhywedd yn y dangosyddion cenedlaethol yn ddiotal iawn am fod hyn yn rhan annatod o gyflawni nodau datblygu cynaliadwy yn llwyddiannus (Unigolyn 19). Cydnabuwyd yn gyffredinol y dylai dangosydd cyfansawdd annibynnol gael ei ddatblygu er mwyn mesur cydraddoldeb rhwng y rhywiau a'i ychwanegu at y set o 40 o ddangosyddion. Derbyniwyd y byddai hyn yn cymryd amser ac, fel y cyfryw, nododd yr ymatebwyr ddau ddangosydd interim yn fynych y gellid eu mabwysiadu yn y cyfamser (sef y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth merched mewn bywyd cyhoeddus a'r broses gwneud penderfyniadau).

Cyfleu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol

- 2.70 Awgrymodd cyfanswm o 92 o ymatebwyr ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru gyfleu'r dangosyddion llesiant cenedlaethol yn effeithiol ledled Cymru.
- 2.71 Nododd rhai o'r ymatebwyr nad oedd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn deall cysyniadau sylfaenol 'llesiant' na dibenion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar hyn o bryd a bod angen ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o hyd er mwyn egluro buddiannau bwriadedig y Ddeddf. Cydnabuwyd hefyd na fyddai gan y cyhoedd ddiddordeb yn y darlun cyfan, ac felly fod angen blaenoriaethu

gwybodaeth (Trydydd Sector 4) a chanolbwyntio ar y canfyddiadau a oedd fwyaf perthnasol i'r gynulleidfa a oedd yn eu cael.

- 2.72 Cafwyd neges allweddol ynghylch cyfleu ffeithiau a ffigurau y mae'r cyhoedd yn eu deall a thanlinellodd llawer o'r ymatebion yr her o gyflwyno gwybodaeth ffeithiol fanwl, wedi'i llywio gan ddata, mewn ffordd ddealladwy. Yn hyn o beth, teimlwyd bod angen cyflwyno darlun o gynnydd (Corff Cyhoeddus 37), gyda dangosyddion yn cael eu hystyried yn gyfres gysylltiedig o fesurau sy'n dangos y cynnydd tuag at nodau llesiant.
- 2.73 Neges gyson a rannwyd mewn ymatebion oedd yr angen am symrlwydd ac eglurder (Arall 5) gyda ffocws ar wybodaeth ystyrlon wedi'i chyfleu yn ei chyd-destun (Corff Cyhoeddus 26). Yn syml, awgrymwyd y dylai unrhyw achos o gyfleu cynnydd ddangos yr hyn roedd yn ei olygu i Gymru ac i'r unigolyn (Corff Cyhoeddus 10), wedi'i ddilyn gan esboniad clir o'r camau angenrheidiol er mwyn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i gynnydd y genedl a'r effaith ar lesiant unigolion.
- 2.74 Tanlinellodd ymatebwyr eraill y dylai'r gwaith o gyfleu'r dangosyddion gynnwys pob cenhedlaeth (Corff Cyhoeddus 50) gan dargedu rhannau o'r boblogaeth yn ôl oedran/cyfnod mewn bywyd (Arall 6) gyda thechnegau a dulliau cyfathrebu yn cael eu haddasu fel sy'n briodol. Nodwyd rôl y Comisiynydd Plant yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yn hyn o beth.
- 2.75 Wrth gyflwyno ac addasu'r negeseuon cyfathrebu i gynulleidfa oedd craidd, dadleuodd sawl ymatebydd y dylai hyn gael ei wneud ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus perthnasol ledled Cymru. Soniodd eraill am yr angen i gynnwys busnesau a'r trydydd sector, ac ystyriwyd bod rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn allweddol i'r broses ledaenu.
- 2.76 Mater hollbwysig a godwyd oedd y defnydd o ddulliau cyfathrebu gwahanol ar gyfer prif negeseuon. Soniodd sawl ymatebydd am yr angen i ddefnyddio sianeli cyfathrebu amrywiol, o'r traddodiadol (y

wasg, cyfryngau darlledu ac ymgyrchoedd hyrwyddo) i ddulliau mwy newydd fel cyfryngau cymdeithasol.

- 2.77 Cafwyd cais hefyd i barhau â'r sgwrs genedlaethol ac yn wir gofynnwyd am ddogfen a oedd yn debyg i ganllaw 'Yr hanfodion' a luniwyd i egluro Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Awgrymodd rhai y dylid adeiladu ar broses 'Y Gymru a Garem' y tybiwyd iddi fod yn llwyddiannus gydag adroddiadau blynyddol cyffredinol, a ategwyd gan adroddiadau thematig mwy manwl y gellid eu teilwra at ddefnydd penodol cynulleidfaoedd targed e.e. busnes, pobl ifanc ac ati.
- 2.78 Awgrymwyd defnyddio grwpiau cymunedol, rhwydweithiau a fforymau sector-benodol neu leol/rhanbarthol fel rhan hanfodol o'r broses ledaenu, gan gynnwys gwybodaeth mewn adeiladau cymunedol fel meddygfeydd, meithrinfeydd a swyddfeydd post lleol er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd yn effeithiol.
- 2.79 Cafwyd peth trafodaeth ynghylch cyhoeddi'r canlyniadau blynyddol - drwy Stats Cymru neu fel adroddiad 'Cyflwr y Genedl'. Cafwyd peth ystyriaeth hefyd o'r ffordd y gallai setiau data lleol a rhanbarthol gael eu coladu a'u cyflwyno mewn modd cyson gyda'r ymatebwyr yn nodi y byddai dangosyddion sy'n trosi'n dermau real ar lefel leol yn ddefnyddiol (Corff Cyhoeddus 39).
- 2.80 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch cyfleu cynifer o ddangosyddion. Dywedwyd bod 40 o ddangosyddion yn llawer iawn o ddata i bobl eu hystyried a'u deall (Trydydd Sector 4). Fel y cyfryw, argymhellwyd y dylid blaenoriaethu dangosyddion. Felly, cynigiodd sawl ymatebydd broses dwy haen o gyfleu'r canlyniadau blynyddol. Yn gyntaf, awgrymwyd y dylai fod nifer fach o brif benawdau syml bob blwyddyn, o bosibl yn canolbwyntio ar y rhai lle cafwyd cryn dipyn o newid. Yna, byddai dangosyddion ail haen yn cael eu cyhoeddi ar ffurf adroddiadau manwl, mwy cymhleth i'w defnyddio gan gynulleidfaoedd arbenigol (gan gynnwys y cyrff cyhoeddus sy'n cyfrannu at newidiadau mewn dangosyddion penodol, dadansoddwyr, ymchwilyr a llunwyr polisi).

- 2.81 Tra credai rhai ymatebwyr y dylai'r saith nod llesiant gael eu defnyddio i ganolbwyntio ar gyfleu cynnydd, teimlai eraill, er bod y nodau'n briodol i'w defnyddio gyda chyrff cyhoeddus, eu bod yn rhy amwys i gyfleu cynnydd yn effeithiol i'r cyhoedd yn ehangach.
- 2.82 Ymhlith rhai o'r dulliau mwy arloesol a awgrymwyd ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a fyddai'n weledol ac yn hygyrch iawn roedd defnyddio mapiau rhyngweithiol, ffeithluniau, apiau a chodau Ymateb Cyflym mewn lleoliadau amrywiol - gan gysylltu dangosyddion o ddiddordeb â lleoliadau penodol. Soniwyd am yr 'Olwyn Llesiant' a ddatblygwyd gan SYG i gyfleu 41 o fesurau llesiant mewn fformat statig a rhyngweithiol droeon fel enghraifft o arfer da o ran defnyddio mapiau rhyngweithiol a siartiau cyfres amser. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y gallai system goleuadau traffig fod yn effeithiol wrth gyfleu cynnydd.
- 2.83 Nododd llawer o'r ymatebwyr hefyd fod angen naratif cryf i egluro'r canlyniadau ac y byddai'r defnydd o wybodaeth ansoddol, cyflwyno senarios (Corff Cyhoeddus 43), straeon ac enghreifftiau o fywyd go iawn (Unigolyn 10) yn helpu i egluro'r cerrig milltir, effeithiau a dylanwadau allweddol. Cyfeiriodd sawl ymatebydd yn benodol at yr animeiddiad o Megan a'i thaith drwy fywyd a ddefnyddiwyd i hyrwyddo'r Ddeddf a dywedwyd ei fod yn ddull llawn gwybodaeth a hygyrch (Corff Cyhoeddus 38), a helpodd i egluro perthnasedd dangosyddion amrywiol a'u rhyngberthynas â'i gilydd.

3. Ymatebion i Gwestiynau Penodol

- 3.1 Yn y bennod hon ystyriwn yr ymatebion penodol i'r 11 o gwestiynau manwl a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori (cwestiynau 6 – 17) sy'n canolbwyntio ar ddangosyddion 03⁹, 23, 24, 25, 26, 31, 33, 34, 39 a 40.

Dangosydd 03 - Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o fesur y dangosydd pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw?

- 3.2 Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn caeedig yn cytuno bod y dull arfaethedig o fesur y dangosydd pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw yn briodol. Cafwyd cyfanswm o 48 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn hwn.
- 3.3 Ar y cyfan, cydnabuwyd bod dangosydd cyfansawdd yn well, ond y pryder mwyaf a fynegwyd oedd na fyddai gwella un agwedd o reidrwydd yn amlwg petai wedi'i gelu gan ddirywiad mewn agwedd arall. Er enghraifft, gallai cynnydd yn nifer y bobl nad ydynt yn smygu gael ei wrthbwysu gan leihad yn y nifer sy'n yfed yn synhwyrol, a thrwy hynny arwain at ddim newid net. O ganlyniad, gofynnwyd yn fynych am i ddata ar gyfer pob elfen fod ar gael yn barhaus. Holodd yr ymatebwyr hefyd p'un a fyddai'n briodol rhoi'r un pwys ar bob dangosydd ac awgrymwyd y dylid ystyried pwysoli pob ymddygiad yn wahanol (o ystyried y ffaith y byddai rhai mathau o ymddygiad fel smygu yn fwy niweidiol).

Tabl 3.1: Ymateb i Gwestiwn 6 (Dangosydd 3 Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Dim ymateb
Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o fesur y dangosydd pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw?	40	19	11	101

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

⁹ Canolbwyntiodd dau gwestiwn ar y dangosydd hwn.

- 3.4 Trafodwyd cynnwys gweithgarwch corfforol fel un elfen o'r dangosydd hwn yn eang gan yr ymatebwyr (tua 18 i gyd). Er bod y mwyafrif o blaid ei gynnwys, holodd nifer fach o'r ymatebwyr p'un a oedd yn briodol cynnwys canllawiau gweithgarwch corfforol fel mesur ar gyfer y dangosydd hwn, gan ddadlau y dylai fod yn ddangosydd annibynnol mewn gwirionedd neu hyd yn oed gael ei gyfuno â dangosydd 27 (pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon). Lleisiwyd pryder y byddai ei osod yn y fasged iechyd yn golygu ei fod yn llai tebygol y byddai gwasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i'r sector iechyd yn ei ystyried (Trydydd Sector 5).
- 3.5 Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai mesurau eraill gael eu cynnwys yn y dangosydd hwn. Y mesurau a nodwyd fwyaf oedd (a) pwysau iach (wyth ymatebydd); (b) cymryd rhan mewn chwaraeon (wyth ymatebydd) ac (c) mynediad i fannau gwyrdd o safon (pum ymatebydd). Hefyd cwestiynodd ambell ymatebydd deitl y dangosydd hwn oherwydd ystyriwyd bod llawer o ffactorau eraill, y tu hwnt i ddewis personol, yn effeithio ar allu unigolyn i ymddwyn fel hyn.
- 3.6 Roedd nifer lai o ymatebwyr yn pryderu y byddai'r dangosydd ond yn mesur y rhai a oedd yn ymddwyn yn fwyaf iach. Nodwyd mai dim ond cyfran fach o boblogaeth Cymru a fyddai'n bodloni'r trothwy arfaethedig presennol sef 4 allan o 5 ymddygiad (Corff Cyhoeddus 2). Yn hytrach, awgrymwyd y gallai adroddiadau fod yn seiliedig ar y cyfrannau a oedd yn cyflawni'r pum ymddygiad (h.y. o ddim i'r pump i gyd) oherwydd ystyriwyd bod hyn yn well am nodi'r holl newidiadau a fyddai wedi digwydd.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys dangosydd tebyg o ddewis ffyrdd iach o fyw ar gyfer plant?

- 3.7 Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr a wnaeth ateb y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cynnwys dangosydd tebyg ar gyfer dewis ffyrdd iach o fyw ar gyfer plant, ac roeddent yn cydnabod bod hyn yn unol â'r ffocws ar agenda 'cenedlaethau'r dyfodol'. Hefyd, yn gyffredinol, cydnabuwyd y byddai'n briodol i'r ymddygiad gael ei gymharu â'r rhai a fesurwyd

ymlith oedolion ac, yn hyn o beth, ailadroddodd llawer o'r ymatebwyr bwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 6.

Tabl 3.2: Ymateb i Gwestiwn 7 (Dangosydd 3 Mae pobl yn dewis ffyrdd iach o fyw)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Dim ymateb
Ydych chi'n meddwl y dylid cynnwys dangosydd tebyg o ddewis ffyrdd iach o fyw ar gyfer plant?	56	10	9	96

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.8 Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn hwn - roedd 15 o'r rhain o'r farn y byddai'n anodd mesur dangosydd tebyg, pe'i cyflwynwyd, am un o ddau reswm. Yn gyntaf, nodwyd yn eang y byddai'n anodd mesur i ba raddau y mae gan blant 'ddewis' o ystyried nad yw plant bob tro yn rheoli'r dewis o ran ffyrdd o fyw iach (Corff Cyhoeddus 8). Yn wir, roedd hon yn ddadl gyffredin ymlith yr ymatebwyr nad oeddent yn gweld fawr o werth i gyflwyno dangosydd o'r fath oherwydd y cyfyngiad hwn. Yn ail, nodwyd yn fynych nad oedd ffynhonnell ddata briodol ar gael ar hyn o bryd a fyddai'n sicrhau y gellid monitro dangosydd o'r fath yn flynyddol ac yn lleol, a ystyriwyd yn broblem bosibl.
- 3.9 Gweithgarwch corfforol, gyda chwaraeon a gweithgarwch corfforol awyr agored - yn enwedig y tu allan i'r amgylchedd ysgol, oedd y mesur pwysicaf o bell ffordd y credai'r ymatebwyr (tua 18 i gyd) y dylid ei fesur petai dangosydd o'r fath yn cael ei gyflwyno. Ymlith y mesurau cyffredin eraill roedd pwysau (yn enwedig pwysau iach yn y flwyddyn dderbyn) a nodwyd gan tua naw ymatebydd a diet cytbwys (gan fesur cyfraddau bwyta ffrwythau a llysiau yn ogystal â bwydydd nad ydynt yn iach) a nodwyd gan tua phum ymatebydd. Hefyd, awgrymodd nifer lai o'r ymatebwyr y dylid cyflwyno presenoldeb yn yr ysgol fel mesur o ymddygiad.

Dangosydd 23 - Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fesur cartrefi sydd heb beryglon fel dangosydd ar gyfer ansawdd tai?

3.10 Mynegodd cyfanswm o 50 o'r ymatebwyr farn ar y cwestiwn hwn ac o'r rhain roedd dros hanner yn anghytuno â'r cynnig i fesur dangosydd 23 (Ansawdd tai) fel nifer y cartrefi sydd heb beryglon. Cafwyd yr anghytundeb mwyaf ymhlith ymatebwyr o'r gymuned dai yn bennaf. Roedd 60 o ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn ac roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn y rhain yn adlewyrchu'r data a gyflwynir yn Nhabl 3.3.

Tabl 3.3: Ymateb i Gwestiwn 8 (Dangosydd 23 Ansawdd Tai)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Dim ymateb
Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fesur cartrefi sydd heb beryglon fel dangosydd ar gyfer ansawdd tai?	22	28	24	97

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.11 Roedd ymatebwyr o'r gymuned dai, er o blaid dangosydd arfaethedig ar gyfer y sector tai yn gyffredinol, yn gryf o'r farn fod y mesur arfaethedig ar gyfer y dangosydd hwn yn rhy gul. Awgrymwyd yn eang fod 'cartrefi sydd heb beryglon' yn un mesur yr oedd angen ei ystyried ochr yn ochr ag eraill a oedd yn mesur 'ansawdd' y stoc dai yng Nghymru, gan gynnwys gorboblogi, cyflwr cyffredinol, sicrwydd deiliadaeth, rhent eiddo, fforddiadwyedd, addasrwydd i ddeiliaid, mynediad i dai ac effeithlonrwydd ynni.
- 3.12 Heb unrhyw ffynhonnell ddata arall, cydnabuwyd mai'r System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, a gynigir fel y ffynhonnell ar gyfer mesur y dangosydd hwn, oedd yr opsiwn gorau oedd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer mesur safonau tai. Fodd bynnag, teimlwyd bod y ffynhonnell hon yn cael ei dominyddu'n ormodol gan y sector tai a rentir yn breifat ac nad oedd yn cynrychioli eiddo perchennog-ddeiliaid ddigon (deiliadaeth sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o stoc dai Cymru). Pwysleisiodd yr ymatebwyr yn fynych y dylai'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn adlewyrchu stoc dai Cymru yn fwy, gan

gynnwys y sector preifat a rhent cymdeithasol yn ogystal ag eiddo perchennog-ddeiliaid.

- 3.13 Dadleuwyd yn eang y byddai angen comisiynu a chynnal arolwg llawn o'r stoc dai er mwyn mesur y newid yn erbyn y dangosydd hwn yn ddigonol ac awgrymwyd y byddai angen cydgysylltu hyn ar lefel genedlaethol. Awgrymodd sawl ymatebydd fod angen ystyried comisiynu arolwg a oedd yn debyg i arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 neu arolwg cenedlaethol o gyflwr stoc (yn debyg i'r Alban lle defnyddir arolwg treigl neu'n cysylltu ag arolwg tai presennol Lloegr). Ystyriwyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod arolwg newydd yn cynrychioli'r holl stoc dai yng Nghymru ar lefel ystadegol.
- 3.14 Mae'r hyn a ddywedwyd gan un ymatebydd (Sefydliad Proffesiynol 7) yn crynhoi'r safbwyntiau hyn. Nodwyd bod y gymuned dai yng Nghymru yn teimlo'n gyffredinol nad yw'r mesur arfaethedig ar gyfer Dangosydd 23 ar 'Ansawdd Tai' yn fesur cadarn i greu darlun cynrychioliadol cywir o dai yng Nghymru. Nodwyd hefyd fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers cwblhau'r arolwg Byw yng Nghymru diwethaf ac anogwyd ystyried datblygu a chwblhau arolwg newydd, er mwyn cefnogi'r gwaith o fesur y dangosydd hwn, fel dull mwy cadarn o weithredu na'r hyn a gynigiwyd.
- 3.15 Roedd a wnelo un pwynt ychwanegol (a godwyd gan tua saith ymatebydd mewn ymateb i gwestiwn 6) â mesur tloidi tanwydd. Awgrymwyd bod cyflwyno'r dangosydd hwn yn gyfle i fesur nifer yr aelwydydd a oedd yn byw mewn tloidi tanwydd ac y dylid datblygu metrigau priodol ar gyfer gwneud hynny.

Dangosydd 24 - Cwestiwn 9: Ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref?

3.16 O'r ymatebwyr hynny a deimlai eu bod yn gallu gwneud sylw (45 i gyd) roedd ychydig dros hanner yn cytuno y dylai'r dangosydd hwn fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref. Dim ond 42 o ymatebwyr a roddodd ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn ac mae dadansoddiad o'r safbwyntiau ansoddol hyn yn awgrymu bod mwy o anghytuno. Yn achos y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr nid oeddent yn gwybod neu ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn hwn.

Tabl 3.4: Ymateb i Gwestiwn 9 (Dangosydd 24 Lefelau digartrefedd)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Dim ymateb
Ydych chi'n meddwl y dylai'r dangosydd fesur aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn hytrach na'r rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref?	25	20	27	99

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

3.17 Mae dadansoddiad o'r ymatebion ansoddol yn awgrymu bod y rhai a oedd yn cytuno (nododd pum ymatebydd hynny'n benodol) o'r farn bod y dull hwn o fesur y dangosydd yn un a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i adrodd ar lefelau digartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys mesur nifer y bobl ddigartref yr ystyriwyd yn aml eu bod 'o'r golwg'. Yn arbennig, nododd yr ymatebwyr fod y dangosydd arfaethedig a'i ddull o fesur yn unol â'r camau a fabwysiadwyd ar gyfer dangosyddion eraill h.y. gellid asesu maint y broblem, yn hytrach na mesur 'effaith yr ateb' (sef yr hyn yr ystyriwyd bod atal digartrefedd yn ei wneud).

3.18 Fodd bynnag, cydnabu rhai o'r ymatebwyr hyn (yn ogystal â sawl un a oedd yn anghytuno) y byddai'r mesur arfaethedig ond yn darparu data ar gyfer is-set o'r boblogaeth wirioneddol ac na fyddai'n adlewyrchu

digartrefedd yng Nghymru mewn modd cynhwysfawr. Lleisiodd ambell un (pedwar ymatebydd) bryderon bod y dangosydd yn rhy gul ac na fyddai'n ystyried lefelau digartrefedd cudd na chysgu ar y stryd er enghraifft. Petai'r mesur yn cael ei fabwysiadu, galwodd ambell ymatebydd hefyd am ganllawiau cliriach ar gategoreiddio a diffinio digartrefedd fel bod modd gwneud cymariaethau gwell ledled Cymru yn y dyfodol.

- 3.19 Cynigiodd yr ymatebwyr hynny nad oeddent yn cytuno â'r mesur arfaethedig ddau brif bwynt er mwyn cyfiawnhau eu safbwyntiau. Yn gyntaf, dadleuwyd na fyddai'r dangosydd arfaethedig yn dangos llwyddiant gweithredu'r agenda atal digartrefedd a gyflwynwyd drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Cododd tua 14 o'r ymatebwyr y mater hwn. Er enghraifft, nodwyd, yn sgil y ddeddfwriaeth newydd a'r pwyslais a roddir bellach ar gamau ataliol, fod nifer fawr o achosion y mae'r system yn delio â hwy ond nas ystyrir yn achosion o ddigartrefedd byth, felly y dylai'r mesur gynnwys y rhai a gafodd eu hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref. Credwyd y byddai ond mesur y rhai yr ystyriwyd eu bod yn ddigartref yn statudol ond yn nodi'r lleiafswm o achosion (Cyrff Cyhoeddus 19, 23 a 24, Sefydliad Proffesiynol 19 ac Arall 6). Yn sgil y ddyletswydd ataliol newydd hon, roedd sawl ymatebydd hefyd yn awyddus i bwysleisio y byddai nifer yr aelwydydd digartref yn lleihau yng Nghymru, ond y byddai hyn yn celu graddau llawn yr angen am dai ledled Cymru petai'r dangosydd arfaethedig yn cael ei fabwysiadu.
- 3.20 Roedd a wnelo'r ail brif bryder a leisiwyd gan y grŵp hwn â'r ffynhonnell ddata ei hun. Nodwyd, gan fod y dull arfaethedig o gasglu data yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag aelwydydd, y byddai cryn bosibilrwydd o gyfrif ddwywaith (neu hyd yn oed deirgwaith).
- 3.21 Yn gyffredinol, byddai'r grŵp hwn yn croesawu dangosydd ar gyfer digartrefedd a fyddai'n cael ei asesu yn erbyn dau fesur: (i) nifer yr aelwydydd a oedd yn wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd neu a oedd wedi'u hatal rhag cael eu gwneud yn ddigartref a (ii) y rhai a ddiffiniwyd yn ddigartref yn statudol. Hefyd, galwodd o leiaf ddau ymatebydd ar i

Lywodraeth Cymru ystyried cyfiri'r sawl sy'n cysgu ar y stryd fel mesur hefyd.

Dangosydd 25 - Cwestiwn 10: Pa fath o weithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ddylai gael eu mesur mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn eich tyb chi?

- 3.22 Cafwyd cyfanswm o 72 o sylwadau penagored mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â dangosydd 25 'pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth'.
- 3.23 Credai'r ymatebwyr yn gyffredinol ei bod yn bwysig bod y dangosydd hwn yn mesur gweithgareddau 'presenoldeb' a 'chyfranogiad' ac un farn gyffredin a leisiwyd oedd y croesawyd cydnabod y ddwy agwedd yn y mesur arfaethedig, gan fod y gweithgareddau hyn yn ategu ac yn atgyfnerthu ei gilydd (Trydydd Sector 29). Awgrymodd nifer lai o'r ymatebwyr y gallai hefyd fod angen i'r dangosydd gynnwys gweithgareddau 'ymweld' (e.e. ymweld ag amgueddfa) a chredai llond llaw ei bod yn bwysig cynnwys gweithgareddau 'gwirfoddoli' yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth hefyd.
- 3.24 Cafwyd barn eang ynghylch pa 'weithgareddau' y dylid eu cynnwys yn y mesur ar gyfer y dangosydd hwn. Er i lawer o'r ymatebwyr ddadlau y dylai'r dangosydd gael ei ddiffinio yn ei ystyr ehangaf neu ar sail pob gweithgaredd, dadleuodd eraill y byddai rhestr fyrrach a mwy ystyrllon yn fwy priodol ar gyfer mesur lefelau ymgysylltu - fel arall byddai perygl y gallai rhestr hir iawn olygu bod y mesur hwn yn ddiystyr (Corff Cyhoeddus 34). Yn hyn o beth, galwodd yr ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch p'un a oedd y dangosydd yn bwriadu bod yn eang neu'n gul iawn ei ddiffiniad.
- 3.25 Cwestiynodd rhai o'r ymatebwyr y meini prawf a bennwyd ar gyfer mesur y dangosydd hwn h.y. oedolion sydd wedi ymgysylltu â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth '*o leiaf 3 gwaith y flwyddyn*'. Credai nifer fach fod y raddfa amser hon yn rhy anfynych. Yn sgil y mater hwn, awgrymodd llond llaw o'r ymatebwyr y gallai 'amlder' ymgysylltu fod yn fesur ychwanegol ar gyfer y dangosydd hwn.

3.26 Ymhlith arsylwadau mwy cyffredinol eraill, a nodwyd gan lai o ymatebwyr (ond gan o leiaf ddau ym mhob achos) roedd pwysigrwydd y canlynol:

- Mesur yr iaith cyfranogi/presenoldeb
- Diffinio hyd y cyfranogi/presenoldeb
- Mesur lefelau ymgysylltu pobl ifanc a phlant o dan 16 oed
- Ystyried gweithgareddau ymgysylltu ar-lein e.e. cofnodion cyhoeddus ar-lein
- Cytuno a oedd angen i weithgareddau fod yng Nghymru ai peidio
- Cyfyngu ar natur oddrychol dehongli ymgysylltu ymhlith y sawl a arolygwyd.

3.27 Awgrymodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn weithgareddau y gellid eu cynnwys yn y dangosydd hwn a rhestrir y rhai mwyaf cyffredin yn Nhabl 5.3 isod.

Tabl 3.5: Gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a nodwyd gan yr ymatebwyr

Gweithgaredd	Nifer yr ymatebion a grybwyllodd y gweithgaredd	Gweithgaredd	Nifer yr ymatebion a grybwyllodd y gweithgaredd
Amgueddfeydd	22	Dawns	22
Theatrau	19	Eisteddfodau	18
Cerddoriaeth	17	Orielau	15
Safleoedd Treftadaeth/Hanesyddol	12	Cyngerdd	11
Gwyliau	11	Llyfrgell	10
Celfyddydau perfformio	14	Crefftau	7
Drama	7	Crefftau a ffeiriau crefftau	7
Sinema neu ffilmiau	6	Archifo	5
Treftadaeth Naturiol	5	Paentio	3
Sioeau (e.e. Sioe Frenhinol)	3	Ffotograffiaeth	3
Aelodaeth (e.e. Cadw)	3	Llenyddiaeth	3

Actio	3	Opera	3
-------	---	-------	---

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.28 Anogodd llond llaw o'r ymatebwyr Lywodraeth Cymru i ystyried diffiniadau neu restrau a fodolai eisoes a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd eisoes gan y sector i fesur y dangosydd hwn. Ymhlith y rhain roedd (a) ymarfer Meincnodi'r Celfyddydau a fabwysiadwyd gan sector celfyddydau awdurdodau lleol yng Nghymru (sydd â dau fesur meintiol sef cyfanswm nifer yr achosion o gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol fesul 1,000 o'r boblogaeth a chyfanswm nifer yr achosion o fod yn bresennol mewn digwyddiadau celfyddydol fesul 1,000 o'r boblogaeth); (b) diffiniad Cyngor Celfyddydau Cymru ac (c) y mesur cyfansawdd a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n cwmpasu ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol.
- 3.29 Prin iawn oedd yr ymatebwyr a nododd y ffynhonnell a'r dull o gasglu data er mwyn mesur y dangosydd hwn. O'r rhain, roedd rhai'n cydnabod gwerth mabwysiadu Arolwg Cenedlaethol Cymru tra awgrymodd eraill yr opsiwn o gasglu data'n uniongyrchol o weithredwyr safleoedd (er mwyn cael nifer yr ymwelwyr), sefydliadau sy'n gyfrifol am safleoedd celfyddydol a threftadaeth (e.e. Cadw) neu sefydliadau aelodaeth (e.e. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

Dangosydd 26 - Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylem ganolbwyntio ar y rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn hytrach nag ar y rhai sy'n gallu siarad yr iaith?

- 3.30 O'r 58 a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno y dylid canolbwyntio ar y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn hytrach na'r rhai sy'n gallu siarad yr iaith. Roedd nifer fawr (111 o ymatebwyr) naill ai ddim yn gwybod neu heb ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Rhoddodd tua 48 o'r ymatebwyr ymateb ansoddol i gwestiwn 11 o'r ddogfen ymgynghori.

Tabl 3.6: Ymateb i Gwestiwn 11 (Dangosydd 26 Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Dim ymateb
Ydych chi'n cytuno y dylem ganolbwyntio ar y rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn hytrach nag ar y rhai sy'n gallu siarad yr iaith?	41	17	20	93

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.31 Dadleuodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn mai mesur y defnydd o'r Gymraeg a ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer y dangosydd hwn¹⁰. Yn gyffredinol, atgyfnerthodd y grŵp hwn (yn ogystal â'r rhai oedd yn anghytuno) bwysigrwydd mesur y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gwahanol (e.e. ar yr aelwyd gyda theulu, gyda ffrindiau, yn y gwaith, yn y gymuned, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ati).
- 3.32 Rhoddodd y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig hwn gyfiawnhad manwl dros gredu hynny ac roeddent yn dueddol o gael eu cynrychioli gan sefydliadau a oedd yn chwarae rhan sylweddol yn y sector iaith Gymraeg. Roedd a wnelo eu prif bryder â dibynnu ar un dangosydd i fesur cynnydd yn y maes hwn oherwydd dadleuwyd na fyddai'n darparu digon o dystiolaeth i nodi unrhyw gyflawniadau. Nodwyd nad oedd y defnydd o iaith a gallu ieithyddol yn cydberthyn.
- 3.33 Credai sawl ymatebydd y byddai'n fwy priodol mabwysiadu dau ddangosydd ar gyfer y Gymraeg - un a oedd yn canolbwyntio ar ddefnydd (fel y cynigiwyd) a'r llall ar allu ieithyddol (gyda gallu yn cael ei fesur mewn ffordd y gellid ei chymharu â data'r cyfrifiad). Nododd un ymatebydd: 'credwn fod angen dau ddangosydd ar wahan i'r Gymraeg: un sy'n mesur cynnydd o ran gallu pobl yn y Gymraeg; ac un arall o ran defnydd. Byddai hynny'n dilyn patrwm clir strategaeth iaith Pawb¹¹ a byddai'n galluogi cymhariaeth glir gydag ystadegau'r cyfrifiad' (Trydydd

¹⁰ 'cytunwn mai defnydd o'r Gymraeg yw'r flaenoriaeth ar gyfer y dangosydd hwn' (Prof 33)

¹¹ 'Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003)

Sector 48). Ystyriwyd y byddai'r dull hwn o weithredu, a fyddai'n fwy unol â thargedau Iaith Pawb, yn ddull mwy cadarn o fesur ffyniant y Gymraeg na'r hyn a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

- 3.34 Yn fwy cyffredinol, mynegwyd peth pryder ynghylch y ddibyniaeth ar ddulliau crynhoi data er mwyn dilysu cyflawni'r dangosydd arfaethedig hwn. Credai ambell ymatebydd nad oedd yr arlwy presennol yn glir a'i fod yn ddryslyd (nid lleiaf am ei fod yn cynnwys dwy fformiwla ar gyfer mesur cynnydd ymhlith plant ac oedolion). Hefyd holodd llond llaw o'r ymatebwyr p'un a oedd yn briodol i'r dangosydd fod yn seiliedig ar ganran y plant sy'n 'siarad Cymraeg gartref', gan ddadlau'n hytrach y gallai defnydd mynych o'r iaith ddigwydd mewn lleoliadau gwahanol fel ysgolion.
- 3.35 Codwyd rhai cwestiynau hefyd ynghylch priodoldeb mabwysiadu maen prawf defnydd 'beunyddiol' gydag ychydig o'r ymatebwyr yn nodi ei bod yn well ganddynt fabwysiadu maen prawf llai mynych. Dadleuodd un ymatebydd, er enghraifft, nad oedd yn cytuno y dylai'r dangosydd ond canolbwyntio ar y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg yn fynych (Corff Cyhoeddus 6) oherwydd byddai'r mesur hwn yn hepgor dysgwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith o bryd i'w gilydd.

Dangosydd 31 - Cwestiwn 12: Pa ddull ddylid ei ddefnyddio i fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr?

- 3.36 Cynigiodd y ddogfen ymgynghori dri opsiwn (A, B ac C) i'r ymatebwyr ddewis eu hoff opsiwn o'u plith. Opsiwn C oedd yr un a ffafriwyd fwyaf ar gyfer mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr fel y dangosir yn Nhabl 3.7.

Tabl 3.7: Ymateb i Gwestiwn 12 (Dangosydd 31 Allyriadau nwyon tŷ gwydr)

Dewis ddull o fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr	Nifer
A. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru	4
B. Allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru	56
C. Dangosydd ôl-troed carbon	107
Dim ymateb	

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.37 Cafwyd 69 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn penodol hwn a gadarnhaodd y ffaith bod y mwyafrif llethol o blaid Opsiwn C. Ffafriwyd Opsiwn C am ei fod yn cael ei ystyried fel y mwyaf cynhwysfawr, manwl gywir ac ystyriol o'r tri. Er enghraifft, nodwyd, yn ogystal â mesur yr allyriadau o'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru, fod hefyd angen mesur allyriadau defnydd er mwyn cydnabod effeithiau bydeang defnydd Cymru o nwyddau a gwasanaethau (Sefydliad Proffesiynol 8). Ychwanegodd ymatebydd arall fod yn rhaid rhoi cyfrif am allyriadau carbon oherwydd, waeth ble y cânt eu cynhyrchu yn y byd, roeddem yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt (Corff Cyhoeddus 37).
- 3.38 Hefyd, dadleuodd sawl ymatebydd y byddai Opsiwn C yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i fodloni'r gofynion statudol a nodwyd ym Mil diweddar yr Amgylchedd (Cymru) (nodwyd y byddai'r Bil yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i bennu a chyflawni targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru). Nodwyd hefyd fod angen i'r dangosydd hwn ystyried canlyniadau cytundeb diweddar cynhadledd hinsawdd Paris (COP21).
- 3.39 Yn fwy cyffredinol, cydnabuwyd yn eang mai Opsiwn C fyddai'r mwyaf heriol o ran casglu data a mynegwyd cryn bryder ynghylch argaeledd a chywirdeb y wybodaeth a'r ffynonellau y gellid eu defnyddio i fesur y dangosydd hwn. Er enghraifft, nodwyd y gellid cwestiynu a oedd digon

o ddata perthnasol ar gael mewn gwirionedd ac, os nad oedd, yr adnoddau a allai fod eu hangen er mwyn eu cynhyrchu (Corff Cyhoeddus 9, Sefydliadau Proffesiynol 12 a 19). Awgrymwyd hefyd fod angen i'r data fod ar gael ar lefel leol iawn er mwyn bod yn ystyrlon i'r cyhoedd. I'r gwrthwyneb, ystyriwyd mai Opsiwn A oedd yr hawsaf i'w fesur tra awgrymodd rhai y byddai Opsiwn B yn darparu set ddata fwy cywir.

- 3.40 Roedd nifer fach o'r ymatebwyr o'r farn bod Opsiwn C ychydig yn aneglur ar ei ffurf bresennol oherwydd credwyd nad oedd yn amlwg a oedd y dangosydd hwn yn cynnwys dau fesur i adlewyrchu allyriadau cynhyrchu a defnydd. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn croesawu'r defnydd o ddau fesur o'r fath, er enghraifft, nodwyd os oedd yn awgrymu cyfuno adroddiadau ar ddefnydd ac adroddiadau ar allyriadau cynhyrchu yn unol â'r adroddiadau blynyddol ar restrau nwyon tŷ gwydr yr oedd yn ofynnol i'r DU eu llunio gan Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, yna fe'i cefnogwyd (Trydydd Sector 33).
- 3.41 Pwysleisiodd ambell ymatebydd bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng y dangosydd hwn a'r canlyniadau a gynigiwyd ar gyfer dangosydd 38 (ôl-troed byd-eang), yn enwedig am ei bod yn cael ei hystyried bod dangosydd 38 yn canolbwyntio ar effaith y defnydd o nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru. Yn y bôn, tybiai rhai o'r ymatebwyr y byddai dangosydd 31 yn ymgorffori allyriadau carbon a oedd yn gysylltiedig â seilwaith (e.e. darparu dŵr a thrafnidiaeth) a bod angen eglurhad pellach ar gyfer y ddau ddangosydd hyn.
- 3.42 Roedd a wnelo un o'r pryderon â'r ffaith, er mai 'allyriadau nwyon tŷ gwydr' oedd teitl y dangosydd, credwyd bod y disgrifiad yn canolbwyntio ar allyriadau carbon deuocsid (CO₂) yn unig, yn hytrach na'r holl nwyon sy'n cyfrannu at allyriadau tŷ gwydr. Nodwyd bod y tri opsiwn dan sylw yn ymddangos fel petaent yn canolbwyntio ar allyriadau carbon yn hytrach na'r hyn a oedd yn cyfateb iddynt yn nhermau allyriadau carbon (CO₂e) a fyddai'n cynrychioli allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gyfan gwbl (Sefydliad Proffesiynol 4).

Dangosydd 32 - Cwestiwn 13: A oes gennych awgrym o ran sut i fesur iechyd ein hecosystemau?

3.43 Er i 27 o ymatebwyr nodi y gallent awgrymu sut i fesur iechyd ein hecosystem (fel y dangosir yn Nhabl 3.8), gwnaeth 33 o ymatebwyr roi ymateb ansoddol i gwestiwn 13 a oedd yn canolbwyntio ar ddangosydd 32 (ecosystemau iach). Gwnaeth nifer fach o'r ymatebwyr gyfuno eu hymateb i gwestiynau 13 a 14.

Tabl 3.8: Ymateb i Gwestiwn 13 (Dangosydd 32 Ecosystemau iach)

Cwestiwn	Oes	Nac oes	Dim ymateb
A oes gennych awgrym o ran sut i fesur iechyd ein hecosystemau?	27	44	100

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

3.44 Gwnaed dau bwynt hollbwysig gan nifer o'r ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn penodol hwn am iddynt gydnabod nad oedd dangosydd addas ar waith ar hyn o bryd â digon o ddata cadarn ar gael i fesur iechyd ecosystemau.

3.45 Yn gyntaf, roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn na ellid mesur y dangosydd hwn ar sail un mesur. Dadleuodd rhai fod hyn oherwydd y ffaith nad oedd dangosydd addas ar gael, er enghraifft, nodwyd nad oedd dangosydd addas, â data digon cadarn, wedi'i nodi eto (Corff Cyhoeddus 44). Dadleuodd eraill na fyddai'n briodol defnyddio un mesur am y byddai'n ddi-awch ac na fyddai'n ddigon addysgiadol na soffistigedig i fesur cynnydd tuag at y saith nod llesiant (Sefydliad Proffesiynol 20).

3.46 Yn ail, roedd sawl ymatebydd o blaid nodi'r dangosydd hwn fel prif ddangosydd a fyddai'n cynnwys cyfres o is-ddangosyddion yn cwmpasu bioamrywiaeth, ansawdd aer, ansawdd pridd ac ansawdd dŵr y gellid ei defnyddio i gynnig darlun mwy cynhwysfawr o iechyd yr ecosystem. Byddai hyn yn arwain at bennu dangosyddion 33, 34, 35 a 36 (sy'n cwmpasu'r themâu hyn) yn is-ddangosyddion ar gyfer 'ecosystemau iach'.

- 3.47 Roedd cryn gefnogaeth ymhlith yr ymatebwyr i ymateb Cyswllt Amgylchedd Cymru i'r ddogfen ymgynghori a nododd fod dangosydd iechyd yr ecosystem yn hanfodol, ochr yn ochr â dangosyddion mwy penodol ar gyfer iechyd yr amgylchedd. Nodwyd y credwyd y gallai prif ddangosydd fod yn bosibl ar gyfer hyn ond ei bod yn debygol o ofyn am fwy nag un metrig, neu hyd yn oed gyfres ategol o ddangosyddion, er mwyn bod yn ystyrlon (Sefydliad Proffesiynol 30).
- 3.48 Nododd ambell ymatebydd fod diffyg data sylfaenol ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cynefinoedd lled-naturiol presennol yng Nghymru ac y byddai angen arolygon newydd (a fyddai'n gofyn am adnoddau priodol) er mwyn darparu data o'r fath.
- 3.49 Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr awgrymu sut y gellid mesur iechyd ein hecosystem a byddem yn cyfeirio darllenwyr at ymatebion a roddwyd gan Arall 2, Busnes 3, Sefydliad Proffesiynol 10, Corff Cyhoeddus 8 a Sefydliad Proffesiynol 5 ar gyfer hyn.

Dangosydd 33 - Cwestiwn 14: Oes gennych chi awgrym am sut y dylid mesur amrywiaeth a helaethrwydd bioamrywiaeth ein hamgylchedd naturiol?

- 3.50 Er mai dim ond 20 o ymatebwyr a nododd fod ganddynt awgrym ar gyfer mesur amrywiaeth a helaethrwydd bioamrywiaeth yr amgylchedd naturiol, cafwyd tua 35 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn hwn ynghylch dangosydd 33 (amgylchedd naturiol bioamrywiol).

Tabl 3.9: Ymateb i Gwestiwn 14 (Dangosydd 33 Amgylchedd naturiol bioamrywiol)

Cwestiwn	Oes	Nac oes	Dim ymateb
Oes gennych chi awgrym am sut y dylid mesur amrywiaeth a helaethrwydd bioamrywiaeth ein hamgylchedd naturiol?	20	45	106

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.51 Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i gynnwys y dangosydd hwn fel dull o fesur cynnydd yn erbyn y Ddeddf, gan ei ddisgrifio fel dangosydd 'hanfodol'. At hynny, roedd yr ymatebwyr yn awyddus i gyfrannu tuag at ei ddatblygu oherwydd cydnabuwyd yn eang nad oedd mesur addas ar gael ar hyn o bryd.
- 3.52 Gwnaed nifer o bwyntiau tebyg gan yr ymatebwyr ar y dangosydd hwn i'r rhai a wnaed ar gyfer cwestiwn 13 (a oedd yn canolbwyntio ar ddangosydd 32 ecosystem iach). Roedd y rhain yn cynnwys y farn na allai un mesur adlewyrchu'n gywir amrywiaeth yr amgylchedd naturiol ac y byddai cyfuniad o fesurau yn cael ei ffafrio. Er enghraifft, nodwyd na fyddai mesur un elfen yn unig yn darparu'r darlun cyfan ac y gallai o bosibl wyrdroi'r sefyllfa wirioneddol (Corff Cyhoeddus 43).
- 3.53 Fel yn achos cwestiwn 13, nodwyd bod diffyg data sylfaenol ar hyn o bryd mewn perthynas ag amgylchedd naturiol presennol Cymru ac y byddai angen arolygon newydd (a fyddai'n gofyn am adnoddau) er mwyn darparu data o'r fath. Yn yr un modd, pwysleisiwyd hefyd fod angen datblygu'r dangosydd hwn mewn ffordd a fyddai'n sicrhau ei fod yn gyson â'r targedau hynny a ddatblygwyd fel rhan o Fil yr Amgylchedd (Cymru).
- 3.54 Awgrymodd o leiaf chwe ymatebydd fod angen datblygu 'metrig rhywogaethau â blaenoriaeth', i gynnwys rhywogaethau morol, er mwyn gallu mesur bioamrywiaeth yr amgylchedd naturiol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hyn at waith y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg o ran datblygu metrig(au) tebyg y gellid ei roi neu eu

rhoi ar waith er mwyn mesur y dangosydd hwn. Hefyd, awgrymodd un ymatebydd y gallai'r rhestr o rywogaethau a nodwyd drwy Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (sy'n rhestru sampl o rywogaethau a ystyrir o bwys mawr i Gymru) gael ei mabwysiadu fel mesur ar gyfer y dangosydd hwn.

- 3.55 Awgrymodd sawl ymatebydd ddulliau eraill o fesur amgylchedd naturiol bioamrywiol Cymru, a oedd yn cynnwys arolygon Cymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain, yr Arolwg o Adar Bridio, yr Arolwg Cefn Gwlad, cofnodion o niferoedd adar gwyllt a nifer y coetiroedd llydanddail newydd a grëwyd. Hefyd, nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd ystyried y tirlun byw (cysylltiadau rhwng pobl a natur a'r amgylchedd), lefelau mannau gwyrdd o ansawdd uchel, cadwraeth coetiroedd a chylchredeg arian gwasanaethau ecosystem o fewn y dangosydd hwn.

Dangosydd 34 - Cwestiwn 15: Ydych chi'n meddwl bod y dangosydd arfaethedig ar gyfer ansawdd y dŵr yn mesur manteision yr amgylchedd dŵr yn ddigonol?

- 3.56 Cafwyd 53 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn ar gyfer dangosydd 34 ansawdd y dŵr. Awgryma dadansoddiad o'r ymatebion hyn fod y rhan fwyaf yn cytuno'n gyffredinol fod y dangosydd arfaethedig yn mesur manteision yr amgylchedd dŵr yn ddigonol (er mai dim ond 22 o'r ymatebwyr a nododd hynny'n benodol), fel y dangosir yn Nhabl 3.9.

Tabl 3.10: Ymateb i Gwestiwn 15 (Dangosydd 34 Ansawdd y Dŵr)

Cwestiwn	Ydw	Nac ydw	Heb nodi	Dim ymateb
Ydych chi'n meddwl bod y dangosydd arfaethedig ar gyfer ansawdd y dŵr yn mesur manteision yr amgylchedd dŵr yn ddigonol? ¹²	22	7	24	118

Ffynhonnell: Dadansoddiad Old Bell 3 o 171 o ymatebion i'r ymgynghoriad

- 3.57 Cydnabuwyd yn eang fod y mesur arfaethedig ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i bennu ar lefel uchel a strategol - ystyriwyd bod hyn yn

¹² Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr ateb 'ydw' neu 'nac ydw' felly mae'r data a geir yn y tabl hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd.

gryfder ac yn wendid o ran y dull gweithredu a fabwysiadwyd. Yn ehangach, roedd barn un ymatebydd yn atseinio barn ambell un arall. Nodwyd, ar sail cydbwysedd, y byddai fwy na thebyg yn derbyn mai dyma oedd y mesur mwyaf priodol, ond roedd nifer o anfanteision sylweddol (Busnes 3).

- 3.58 Awgrymwyd dau welliant penodol i'r dangosydd gan yr ymatebwyr. Yn gyntaf, dylai'r mesur ar gyfer y dangosydd hwn ddarllen 'canran y cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da *neu well* ar y cyfan dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr'. Byddai'r newid hwn yn golygu bod y dangosydd yn unol â gofynion adrodd statudol y sector. Yn ail, dylai'r dangosydd fod yn gysylltiedig â nod llesiant 'Cymru Lewyrchus' gan nad oedd ar hyn o bryd.
- 3.59 Dadleuodd o leiaf bedwar ymatebydd mai prif wendid y ffynhonnell ddata arfaethedig (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gyrchwyd drwy Cyfoeth Naturiol Cymru) oedd ei gorddibyniaeth ar ffynhonnell cyflwr y cyrff dŵr mwy ar gyfer cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus, sydd o ansawdd uchel iawn yng Nghymru. Aeth y cynrychiolwyr hyn ymlaen i ddadlau bod y ffynhonnell ddata yn cael ei hystyried yn llai cynrychioliadol o'r ffynonellau llai, yn amodol ar halogi lleol, a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat (Cyrff Cyhoeddus 9 a 19, Sefydliadau Proffesiynol 11 a 12).
- 3.60 Gwendid arall a nodwyd yn fynych ar gyfer y dangosydd hwn oedd y ffaith nad ystyriwyd ansawdd dŵr ymdrochi na dŵr yfed (fel y cydnabyddir yn y ddogfen ymgynghori). Awgrymwyd y gallai'r dangosyddion hyn gael eu mabwysiadu fel mesurau 'ychwanegol' neu 'ategol' ar gyfer y dangosydd hwn. Yn unol â'r pwynt hwn, ailadroddodd ymatebwyr eraill safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad a awgrymodd y gallai'r dangosydd hwn gael ei gyfuno ag is-ddangosyddion eraill o dan y pennawd 'ecosystem iach'.
- 3.61 Roedd a wnelo ystyriaethau eraill a godwyd gan yr ymatebwyr â materion fel a ganlyn:

- ystyriwyd bod y broses samplu ar gyfer y mesur arfaethedig yn canolbwyntio gormod ar gyrff dŵr y credwyd eu bod mewn perygl o fethu, ac felly ni fyddai'r canlyniadau yn ddibynadwy;
- methu â chymharu â chanlyniadau ansawdd dŵr blaenorol;
- nid yw'r mesur yn nodi pa ddefnydd tir sy'n cyfrannu fwyaf at ansawdd dŵr gwael.

Dangosydd 39 - Cwestiwn 16: Pa fathau o weithgareddau rhyngwladol neu fathau o ymgysylltu ddylai gael eu cynnwys yn y dangosydd hwn?

- 3.62 Cafwyd 68 o ymatebion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar ddangosydd 39 (dinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang).
- 3.63 Canolbwyntiodd sylwadau gan 26 o'r ymatebwyr ar y ffordd y byddai'r dangosydd hwn yn cael ei fesur ac, o ganlyniad i hyn, y diffiniad o ddinesydd ar lefel fyd-eang. Credai llawer, drwy ond mesur nifer y bobl 'sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau rhyngwladol mewn gwledydd datblygol', fod y dangosydd yn rhy gul i adlewyrchu'n ddigonol faint o gyfleoedd oedd ar gael i ymgysylltu ar lefel ryngwladol ac, yn ei hanfod, gallai danseilio'r diffiniad o 'ddinesydd ar lefel fyd-eang'.
- 3.64 Atseiniodd un ymatebydd farn llawer wrth ddisgrifio dinesydd ar lefel fyd-eang fel rhywun y mae ei ddealltwriaeth o'i hun fel dinesydd yn seiliedig ar ymwybyddiaeth glir o'i le ef a lle ei wlad yn y byd (Trydydd Sector 3). Felly, roedd mwyafrif mawr o'r farn y dylai'r dangosydd, mewn rhyw ffordd, fesur cyfraniadau a wnaed drwy waith, gwirfoddoli neu hyd yn oed roddion elusennol i faterion rhyngwladol gan ddinasyddion o Gymru gartref neu dramor. Nodwyd nad oedd yn rhaid i bobl deithio er mwyn bod yn ddinasyddion gweithgar ar lefel fyd-eang (Unigolyn 14).
- 3.65 Nodwyd ystod eang o weithgareddau a ffyrdd o ymgysylltu ar lefel ryngwladol i'w cynnwys yn y dangosydd hwn. Mae'r rhan fwyaf yn perthyn i gategorïau cyffredinol elusen, cadwraeth, diwylliant ac addysg. Ymhlith y rhain roedd gwaith yn y DU a thramor ar raglenni gwirfoddol, ymgyrchoedd a chodi arian, cymorth desg a TG, cymorth

mewn trychineb a chymorth dyngarol (â thâl ac yn ddi-dâl) a rhaglenni addysg.

- 3.66 Ymhlith y gweithgareddau neu'r ystyriaethau eraill, a nodwyd gan lai o ymatebwyr, roedd cefnogi masnach deg a chysylltiadau busnes tramor, meithrin dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy ac ôl-troed byd-eang Cymru, anghydraddoldeb, diraddio ecosystemau, cefnogi cynadleddau rhyngwladol, a ffocws ar dreftadaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg fel iaith leiafrifol.
- 3.67 Wedi dweud hynny, roedd lleiafrif o bedwar ymatebydd o'r farn y byddai cynnwys rhestr o weithgareddau fel y rhai a nodwyd uchod yn dibrisio'r dangosydd drwy ei wneud yn rhy eang. Awgrymodd llond llaw o'r ymatebwyr y byddai'n briodol aralleirio'r dangosydd er mwyn iddo fod yn fwy cydnaws â Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a'i gwneud yn haws meincnodi.
- 3.68 Roedd o leiaf bedwar ymatebydd hefyd o'r farn y gallai Arolwg Cenedlaethol Cymru fod yn ffordd broblematic o fesur y dangosydd hwn oherwydd nid ystyriwyd ei fod yn holi sampl ddigon mawr i gasglu data cadarn. Roedd o leiaf ddau ymatebydd o'r farn y byddai dull naratif yn ffordd fwy effeithiol o gasglu data.
- 3.69 O'r ymatebwyr hynny a atebodd gwestiwn 16 yn benodol, roedd dau o'r farn y byddai'n synhwyrol cyfuno'r dangosydd hwn â dangosydd 40 a dadleuodd tri y dylid ei hepgor yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mynegwyd y safbwyntiau hyn gan amlaf mewn ymateb i'r cwestiynau cyffredinol a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori a dangosydd 39 (ynghyd â dangosydd 40) a grybwyllwyd fwyaf o ran eu cyfuno neu eu dileu'n gyfan gwbl.

Dangosydd 40 - Cwestiwn 17: Beth yw eich barn ynglŷn â'r cynnig i ddarparu esboniad naratif ar y modd y mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol yn lle mesuriad penodol?

- 3.70 Cafwyd 63 o ymatebion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar ddangosydd 40 (cyfrifoldebau rhyngwladol). Roedd o leiaf 38 o'r ymatebwyr hyn, mwyafrif clir, yn cytuno mai dull naratif fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o

bennu sut mae Cymru'n cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol a dadleuwyd ei fod yn ddangosydd pwysig i'w gadw.

- 3.71 Roedd consensws cyffredinol bod y pwnc hwn yn rhy eang i'w fesur yn feintiol ac y byddai'n gofyn am broses ddadansoddi a oedd yn rhy gymhleth. Gan adlewyrchu barn y mwyafrif, nododd un ymatebydd ei fod yn croesawu naratif ansoddol sy'n dynodi sut mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, fel gwlad lewyrchus, cydnerth, iach a chyfartal, sydd â chymuned gydlynus, diwylliant bywiog a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, yn cyfrannu'n rhyngwladol (Corff Cyhoeddus 7).
- 3.72 Er yn cefnogi'r dull a ddewiswyd mewn egwyddor, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn seiliedig ar ymchwil gadarn. Fel y cyfryw, galwyd ar i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pwy fyddai'n gwneud y gwaith hwn, pa adnoddau fyddai ar gael a sut y byddai'n cael ei fesur. Roedd rhai yn cefnogi datblygu rhestr o rwymedigaethau rhyngwladol allweddol a allai gael eu hystyried wrth baratoi'r dystiolaeth naratif ar gyfer y dangosydd hwn.
- 3.73 Rhoddwyd amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer y math o gyfrifoldebau rhyngwladol y gellid eu hystyried fel rhan o'r dangosydd hwn. Yn eu plith roedd cyfrifoldebau a chylchoedd gwaith yn ymwneud ag aelodaeth o'r Cenhedloedd Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yr iaith Gymraeg a'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Natura 2000, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Roeddent hefyd yn cynnwys hawliau dynol, hawliau plant a materion sy'n effeithio ar fenywod, cytundebau masnach, addysg ar gyfrifoldebau rhyngwladol, gwaith sefydliadau o Gymru sydd â ffocws rhyngwladol, arfer gorau ymhlith busnesau o Gymru sy'n gweithredu'n rhyngwladol, cysylltiadau rhyngwladol prifysgolion o Gymru a chyfraniad Cymru tuag at atal tymheredd byd-eang rhag codi, lleihau allyriadau a'r ôl-troed carbon.

- 3.74 Nododd tri ymatebydd yn benodol, er eu bod yn cefnogi'r dull naratif, na allent weld sut y byddai'n arwain at wella llesiant dinasyddion Cymru yn y dyfodol. Fel y cyfryw, awgrymwyd bod angen i'r dangosydd hwn allu dangos gwell canlyniadau ac ymhelaethu ar y ffordd y mesurir llwyddiant. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn nad oedd dull naratif yn addas am na fyddai'n cynnig ffordd gyson a gwrthrychol o fesur llwyddiant dros amser, tra roedd pedwar arall o'r farn y dylai elfen feintiol gael ei chyfuno â'r dadansoddiad naratif o'r dangosydd hwn.
- 3.75 Nododd tri ymatebydd y byddent yn hoffi gweld y dangosydd hwn yn cael ei gyfuno â dangosydd 39 (nododd sawl ymatebydd arall hyn hefyd yn eu hymatebion i gwestiynau cyffredinol yr ymgynghoriad). Dim ond un ymatebydd, a atebodd gwestiwn 17 yn benodol, a ddadleuodd yn gryf o blaid peidio â chynnwys y dangosydd hwn o gwbl (er, unwaith eto, roedd sawl ymatebydd arall o'r un farn pan atebwyd cwestiynau cyffredinol yr ymgynghoriad).